

# Dyfodol cymunedau Cymraeg: crynodeb o ymatebion i'r alwad am dystiolaeth

---

Mai 2023

Arad Research  
8 Columbus Walk  
Brigantine Place  
Cardiff / Caerdydd CF10 4SD  
029 2044 0552  
[www.aradresearch.com](http://www.aradresearch.com)

ymchwil  
arad

# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
1.1 Yr Ymatebion	3
1.2 Egwyddorion sylfaenol	4
<b>2. Polisi cyhoeddus ac Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig</b>	<b>7</b>
2.1 Yr egwyddor o amrywio polisi cyhoeddus mewn gwahanol gymunedau	7
2.2 Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig (AAIA)	8
2.3 Corff cynllunio ieithyddol	9
2.4 Cryfhau Safonau'r Gymraeg fel offeryn i gefnogi cynllunio ieithyddol	11
<b>3. Maes polisi addysg</b>	<b>13</b>
3.1 Trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu	13
3.2 Blynyddoedd cynnar	13
3.3 Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAu)	14
3.4 Ymestyn cyfleoedd i hwyrddyfodiaid i gaffael yr iaith	15
3.5 Categorioidio ysgolion	15
3.6 Addysg bellach a galwedigaethol	16
3.7 Addysg uwch	17
<b>4. Maes polisi amaeth a defnydd tir</b>	<b>18</b>
4.1 Cefnogi ffermydd llai a ffermydd teulu	18
4.2 Polisi Coedwigaeth	19
4.3 Cadwraeth a bioamrywiaeth	19
<b>5. Meysydd polisi adfywio a datblygu economaidd</b>	<b>20</b>
5.1 Ehangu a chyllido Cynllun ARFOR	20
5.2 Y Gymraeg fel sgil hanfodol mewn sefydliadau cyhoeddus	21
5.3 Strategaeth marchnad lafur	22
5.4 Diwygio Trefniadau Caffael	22
5.5 Targedu cefnogaeth tuag at sefydliadau a busnesau Cymraeg	23
5.6 Twristiaeth	24
5.7 Isadeiledd / seilwaith o fewn cymunedau Cymraeg	26
5.8 Yr economi sylfaenol	26
<b>6. Maes polisi datblygu cymunedol</b>	<b>28</b>
6.1 Gwasanaethau a chefnogaeth i grwpiau a mentrau cymunedol	28
6.2 Darparu cyfleoedd cymdeithasu	30
6.3 Asedau Cymunedol	31
<b>7. Maes cynllunio gwlad a thref</b>	<b>33</b>
7.1 Cefndir a chyd-destun cynllunio gwlad a thref	33
7.2 Cais am ganllaw cliriach a gwell data a thystiolaeth	33
<b>8. Maes polisi tai</b>	<b>36</b>
8.1 Sicrhau llais cryf i'r sector tai wrth gynllunio ymyriadau strategol	36
8.2 Sicrhau rhagor o dai fforddiadwy i bobl leol	36
8.3 Ail gartrefi	40
<b>9. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</b>	<b>42</b>

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau galwad am dystiolaeth am sut gellir cryfhau cymunedau Cymraeg, a lansiwyd gyda'r nod o ddod â gwybodaeth, syniadau, a safbwyntiau ynghyd ynghylch sut y gellir cryfhau'r cymunedau hyn. Daeth yr alwad am dystiolaeth gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg (y Comisiwn), gyda'r nod o gefnogi ei waith wrth lunio argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Ffocws yr alwad hon am dystiolaeth oedd casglu ymatebion a sylwadau mewn perthynas â chryfhau cymunedau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru. Rhoddwyd cyfle i ymatebwyr gynnig sylwadau ar-lein, drwy'r post a thrwy e-bost.

## 1.1 Yr Ymatebion

### Nifer yr ymatebion

Lansiwyd yr alwad ar 8 Tachwedd 2022, gyda'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion a thystiolaeth ar 13 Ionawr 2023. **Cafwyd 179 o ymatebion**, gyda'r mwyafrif o ymatebion yn cael eu cyflwyno drwy'r ffurflen ar-lein (124). Darparwyd 55 o'r ymatebion ar ffurf dogfen. Roedd rhai yn dilyn y strwythur o ddeunaw cwestiwn ond y rhan fwyaf yn ateb mewn dull mwy pen agored ac yn tueddu i fod yn atebion hirach. O'r 55 o ymatebion hyn, roedd 42 ohonynt yn ymateb ar ran sefydliad, gyda 13 ohonynt gan unigolion.

### Ffurflen yr ymatebion

Rhoddwyd rhwydd hant i ymatebwyr gyflwyno dystiolaeth neu safbwynt am unrhyw fater a oedd yn eu tyb hwy'n berthnasol i les cymunedau Cymraeg. Fodd bynnag, gan fod y Comisiwn yn awyddus i glywed am rai materion penodol, lluniwyd rhai cwestiynau i gynorthwyo ymatebwyr, fel gwelir yn y blwch isod. Er i'r canllaw ar gyfer ymatebwyr nodi 18 o gwestiynau, ni wnaeth pob un o'r ymatebwyr gadw at y templed hwnnw a chafwyd llawer a oedd yn gorgyffwrdd ac yn cwmpasu sawl thema neu sawl maes polisi. Roedd ymatebion gan sefydliadau yn dueddol o fod yn ehangach na'r set o 18 cwestiwn.

### Cwestiynau i gefnogi atebion i'r alwad am dystiolaeth

Ymateb i newidiadau diweddar

- Cwestiwn 1: Pa gamau y dylid eu cymryd er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg (neu'r Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg) o ganlyniad i unrhyw un o'r datblygiadau hyn? [sef gadael yr Undeb Ewropeaidd, effeithiau COVID-19, arferion cymdeithasol newydd (e.e. gweithio o adref), yr argyfwng o ran costau byw ac ynni.]

Targedu cefnogaeth

- Cwestiwn 2: Sut gallwn ni ddarparu cefnogaeth yn effeithiol ar gyfer cymunedau Cymraeg?
- Cwestiwn 3: Sut gallwn ni ddefnyddio polisiâu rhanbarthol neu leol er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg?
- Cwestiwn 4: Pa swyddogaeth ddylai fod gan lywodraeth leol wrth gryfhau cymunedau Cymraeg?

Meysydd polisi

Yn y meysydd canlynol, pa bolisiâu y dylid eu cyflwyno er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg?

- Cwestiwn 5: Adfywio
- Cwestiwn 6: Addysg
- Cwestiwn 7: Amaethyddiaeth / Defnydd Tir
- Cwestiwn 8: Cynllunio Gwlad a Thref
- Cwestiwn 9: Datblygu Cymunedol
- Cwestiwn 10: Datblygu Economaidd
- Cwestiwn 11: Tai
- Cwestiwn 12: Unrhyw faes arall

Polisi iaith uniongyrchol

- Cwestiwn 13: Pa mor effeithiol yw polisi iaith uniongyrchol mewn cymunedau Cymraeg?
- Cwestiwn 14: Sut gallwn ni gryfhau polisi iaith uniongyrchol mewn cymunedau Cymraeg?

Cryfhau cymunedau Cymraeg mewn cytgord â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru

- Cwestiwn 15: Sut gallwn ni gryfhau cymunedau Cymraeg mewn modd sy'n cydblethu â rhai o amcanion eraill Llywodraeth Cymru?
- Cwestiwn 16: Sut gallwn ni gryfhau cymunedau Cymraeg yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

Pobl ifanc a theuluoedd ifanc mewn cymunedau Cymraeg

- Cwestiwn 17: Sut gallwn ni sicrhau cydbwysedd gwell o ran oedran mewn cymunedau Cymraeg, gan greu sefyllfa lle mae mwy o bobl ifanc a theuluoedd ifanc yn byw yno?

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

- Cwestiwn 18: Sut gallwn ni gryfhau cymunedau Cymraeg mewn ffordd sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth?

Nid ydym wedi strwythuro'r adroddiad hwn yn unol â'r union gwestiynau uchod, yn bennaf oherwydd y gorgyffwrdd ac ail-adrodd a geir. Ceir penodau sy'n cwmpasu'r meysydd polisi wedi'u strwythuro fel a ganlyn:

- Polisi cyhoeddus ac Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig
- Addysg
- Amaeth
- Adfywio a datblygu economaidd
- Datblygu cymunedol
- Cynllunio a pholisi tai
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Priodolir rhai o'r cynigion a dyfyniadau i sefydliadau gyda'u caniatâd, tra bo cynigion a dyfyniadau gan unigolion yn ddienw yn yr adroddiad hwn.

## 1.2 Egwyddorion sylfaenol

### Canolbwyntio ar y syniadau a chynigion penodol a gweithredadwy

Wrth baratoi'r adroddiad hwn, cafwyd arweiniad i gofnodi syniadau 'gwirioneddol' a 'gweithredadwy' o fewn yr ymatebion i'r alwad am dystiolaeth. Wrth ddewis pa syniadau a chynigion i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i ystod o feini prawf, gan gynnwys perthnasedd, eglurder a'r graddau yr oedd y cynigion yn argymhell camau gweithredu

penodol. Cafwyd nifer o ymatebion yn amlinellu'r newidiadau yr oedd yr ymatebwyr am eu gweld a disgrifiadau o'r canlyniadau dymunol ond heb gynnwys mesurau neu gynigion penodol i gefnogi'r nodau hynny.

Rydym wedi tueddu i hepgor y cyfraniadau, neu bwyntiau, sy'n disgrifio dyheadau neu draweffeithiau y dymunir eu gweld yn unig, gan flaenoriaethu cynigion sy'n disgrifio camau penodol er mwyn cefnogi a chryfhau cymunedau Cymraeg. Dylid nodi, fodd bynnag, bod yr holl ymatebion wedi cael eu darllen a'u hystyried.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r syniadau a'r dystiolaeth sydd wedi'u casglu, heb wirio'n drylwyr am gywirdeb. Mae unrhyw nodiadau esboniadol yn rhai byr lle bo angen yn unig.

Nid yw'r adroddiad yn anelu at gofnodi pob syniad a sylw a gyflwynwyd yn ystod y broses. Fodd bynnag, hyderwn ein bod yn cofnodi'r syniadau a chynigion amlycaf sydd yn haeddu sylw'r Comisiwn.

### **Cefnogaeth i'r egwyddor o gryfhau cymunedau**

Roedd yr ymatebion yn cydnabod pwysigrwydd adeiladu cymunedau cryf, gwydn, a chynaliadwy, a'r angen i fynd i'r afael â'r heriau sy'n atal cymunedau Cymraeg rhag ffynnu. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnig syniadau ar sut i wella lles cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol cymunedau, gyda ffocws ar gynaliadwyedd hirdymor. Mae'r ymatebion hefyd yn amlygu diddordeb ymysg sefydliadau ac unigolion ledled Cymru i gyfrannu at lunio polisiau yn y maes hwn – gyda nifer yn nodi eu parodrwydd i gefnogi a chyfrannu wrth i waith y Comisiwn barhau.

### **Cyfiawnder cymdeithasol**

Tynnwyd sylw yn yr ymatebion at yr heriau y mae cymunedau'n eu hwynebu, gan gynnwys tlodi, anghydraddoldeb, allgáu cymdeithasol, a dirywiad amgylcheddol, a'r angen i fynd i'r afael â'r heriau hyn drwy ymyriadau polisi. Yn hyn o beth, roedd nifer fawr o'r ymatebion wedi fframio eu syniadau a'u sylwadau mewn cyd-destun cyfiawnder cymdeithasol, tegwch, a chyd-raddoldeb. Mae'r ymatebion yn dangos pryder mawr am yr annhegwch o fewn cymunedau Cymraeg a'r angen i fynd i'r afael â hyn drwy bolisi cyhoeddus. Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod cryfhau cymunedau Cymraeg yn ymwneud â gwella lles y gymuned gyfan ond hefyd yn anelu tuag at hybu tegwch a chyfiawnder cymdeithasol o fewn a rhwng cymunedau.

### **Pwysigrwydd dosbarth cymdeithasol**

Nododd nifer fod cyswllt rhwng dosbarth cymdeithasol a defnydd o'r Gymraeg mewn rhai rhannau o Gymru, a bod 'arwyddion bod y grŵp iaith yn ymrannu ar hyd llinellau dosbarth' gyda'r shifft iaith yn digwydd yn fwy cyflym yn y dosbarth gweithiol nag yn y dosbarth canol. Awgrymwyd bod angen gwreiddio gweithgarwch yn y gymuned, a sicrhau fod camau o blaid y Gymraeg yn adlewyrchu anghenion a delfrydau pawb, o bob cefndir cymdeithasol.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan nodi'r angen i benderfyniadau polisi a gweithrediad polisi cyhoeddus efelychu egwyddorion y Ddeddf. Nodwyd yr angen i sicrhau llesiant y Gymraeg fel ystyriaeth greiddiol 'wrth wneud penderfyniadau diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd' (Cyngor Sir Ceredigion). Ategwyd hyn gan sawl unigolyn a chorff. Tra bod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus o dan ddarpariaethau'r Ddeddf i asesu effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, awgrymwyd bod 'angen mwy o arweiniad ar gyrff ar sut i wneud hyn yn effeithiol ac ymarferol' (Cyngor Gwynedd).

## **Gweithredu holistaidd**

Nododd nifer o ymatebwyr yr angen am weithredu holistaidd ar draws y gwahanol feysydd polisi cyhoeddus. Gan gyfeirio at y ffaith fod y Gymraeg yn iaith gymunedol sy'n rhan o bob agwedd o fywyd mewn cymunedau, pwysleisiwyd yr angen i unrhyw ymyriadau gwmpasu gwahanol feysydd polisi cyhoeddus mewn ffordd gynhwysfawr a throsfwaol.

## **Galwadau am ragor o gyllid i gefnogi cynlluniau o fewn cymunedau Cymraeg**

Nododd sawl ymatebydd bryderon ynghylch prinder y cyllid craidd sydd gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill a mudiadau cymunedol i'w wario ar gynlluniau i gefnogi'r Gymraeg. Er bod arian grant ar gael ar gyfer prosiectau ac ymyriadau lleol, pwysleisiwyd nad yw'r dull hwn o ariannu yn caniatáu i sefydliadau fuddsoddi mewn cynlluniau hirdymor i gryfhau'r iaith. Mae argaeledd cyllid yn gyd-destun hollbwysig ar gyfer yr holl gynigion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, ac yn amlwg yn fater y mae ymatebwyr o ystod eang o sefydliadau yn poeni yn ei gylch.

'Mae'r Fframwaith Safonau [y Gymraeg] wedi darparu llwybr clir o ran sut dylai'r Cyngor a sefydliadau cyhoeddus eraill fynd ati i gynllunio'u gwasanaethau yn Gymraeg, a'i gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bod dydd. Fodd bynnag, mae unrhyw bolisi yn ddibynnol ar y cynllun gweithredu; ac er mwyn gweithredu'r cynllun hwnnw mae'n rhaid cael buddsoddiad, hynny yw bod yn rhaid cael pobl ac adnoddau er mwyn gweithredu. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw gyllid atodol ar gyfer sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn medru gwireddu'r polisïau uchod [i gefnogi'r Gymraeg]' (Cyngor Sir Ceredigion).

## **Yr angen am ymchwil bellach yn y maes wrth symud ymlaen**

Thema gyffredin arall ymhlith yr ymatebwyr yw'r angen am fwy o ymchwil. Gwnaeth rhai ymatebwyr fynegi eu hawydd i weld ymchwil a dadansoddi pellach a pharhaus i sefyllfa'r iaith, gan gynnwys ymchwil i'r defnydd cymdeithasol ohoni yn ein cymunedau.

## 2. Polisi cyhoeddus ac Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig

Ni chafwyd cwestiwn penodol mewn perthynas ag amrywio polisi cyhoeddus yn seiliedig ar wahaniaethau tiriogaethol, na chwaith ar y cysyniad o sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig. Fodd bynnag, fe godwyd y materion hyn yn gyson ar draws yr ymatebion, gan unigolion a sefydliadau.

### 2.1 Yr egwyddor o amrywio polisi cyhoeddus mewn gwahanol gymunedau

Cyflwynwyd yr egwyddor o ddynodi statws arbennig ar ardaloedd ieithyddol penodol fel sail ar gyfer amrywio polisi cyhoeddus. Nododd sawl ymatebydd mai'r rhesymeg dros hyn yw bod gan gymunedau Cymraeg arwyddocâd a gwerth ieithyddol a diwylliannol arbennig, ac y dylid diogelu ac atgyfnerthu'r gwerth hwnnw wrth lunio a gweithredu polisi cyhoeddus ar draws ystod o feysydd. Cafwyd cefnogaeth, felly, i'r cysyniad o amrywio polisi cyhoeddus yng Nghymru er mwyn adlewyrchu anghenion lleol wrth gynnal y Gymraeg.

#### Cynnig 1: Amrywio polisi cyhoeddus i adlewyrchu anghenion cymunedau Cymraeg

'Trwy drin Cymru fel un uned ieithyddol, mae polisïau swyddogol ar hyd y blynyddoedd wedi methu â chydabod yr amrywiaethau rhwng gwahanol rannau o Gymru. Canlyniad anochel hyn oedd nad oedd anghenion penodol cymunedau a oedd â'r Gymraeg yn brif iaith iddynt yn cael y sylw dyladwy.'

**Ffynhonnell: Mentrau Iaith Cymru**

'[Mae] angen ystyried rhai ardaloedd yn sensitif yn ieithyddol a phwysig yn ieithyddol gan amrywio polisi, cynllunio a gweithredu ar sail hynny.'

**Ffynhonnell: Iaith Cyf**

'Rhoi dynodiad arbennig "sensitifrwydd ieithyddol" i gymunedau Cymraeg a chreu polisïau penodol i'r ardaloedd hynny, nid yw'r systemau cenedlaethol/ Cymru gyfan sydd wedi bodoli wedi gweithio – gweler canlyniadau cyfrifiad 2021 – felly rhaid gwahaniaethu.'

**Ffynhonnell: Hunaniaith**

'Tra'n cydnabod rhan allweddol fframwaith polisi cadarn, strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a sirol cydnerth ac adnoddau cyhoeddus sylweddol mewn polisi a chynllunio iaith, cymerwn y cyfle hwn i danlinellu un pwynt penodol – sef bod angen grymuso a hwyluso cymunedau Cymraeg i weithredu o blaid y Gymraeg yn eu rhinwedd a'u gallu eu hunain.'

**Ffynhonnell: Iaith Cyf**

Nodwyd yr angen i fod yn eglur ac yn ofalus wrth ddehongli/ddiffinio cymunedau. Pwysleisiwyd yr angen i ystyried natur 'rhwydweithiol' cymunedau a'r perygl o edrych ar gymunedau drwy lens ddaearyddol rhy gul. Cynigiwyd bod angen i'r Comisiwn:

'gydnabod a llunio argymhellion polisi sy'n ymateb i'r modd nad yw pobl yn byw, yn gweithio ac yn cymdeithasu mewn un man neu gymuned, a'r modd mae arferion gwaith a chymdeithasol unigolion o ddydd i ddydd ar draws ardaloedd ehangach gan effeithio ar ystod o weithgaredd a ble mae pobl yn defnyddio iaith. Byddai'n fuddiol ceisio rhoi mwy o sylw i'r rhwydweithiau a'r



gweithgareddau mae unigolion o fewn yr ardaloedd dan sylw yn cymryd rhan ynddynt o ddydd i ddydd. Gallai hyn effeithio yn y pendraw ar argymhellion y Comisiwn, o ran hyd a lled ble y dylid gweithredu polisiau cyhoeddus cryfach i gefnogi cynladwyedd ieithyddol.’ (Prifysgol Aberystwyth)

## 2.2 Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig (AAIA)

Gan adlewyrchu safbwyntiau tebyg i'r rhai a gyflwynir uchod, roedd rhai'n dadlau y dylid sefydlu ardaloedd arbennig lle y gallai amrywiadau i bolisi cyhoeddus ddod i rym.

Awgrymodd sawl sefydliad bod diffyg adnabyddiaeth neu ddealltwriaeth gytûn o ba ardaloedd o Gymru sy'n cael eu hystyried yn gymunedau Cymraeg yn 'fwlch polisi amlwg.' Tynnodd sawl ymatebydd sylw at y ffaith fod yna gyfundrefnau mewn meysydd polisi eraill sy'n dynodi ardaloedd o arwyddocâd (e.e. amgylchedd, treftadaeth). Nodwyd y gallai'r model arwain at sicrhau cyllideb, gosod arweiniad/gofynion mewn perthynas â materion cynllunio, a thargedu ymyraethau.

### Cynnig 2: Sefydlu Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig

'Byddem yn awgrymu bod y Gymraeg gyfystyr ag ecosystem sydd angen ei hamddiffyn a'i datblygu. Cymharer â'r gyfundrefn ddeddfwriaethol sy'n bodoli eisoes i warchod yr amgylchedd ac ardaloedd o arwyddocâd ecolegol. Gall fanteision gweithredu yn y modd hwn gynnwys:

- gwell ystyriaeth o effaith penderfyniadau cyrff cyhoeddus ar ddefnydd ac ymdriniaeth o'r Gymraeg mewn cymunedau, a
- cryfhau dyletswyddau o gyloch casglu tystiolaeth fel sylfaen gadarn i wneud penderfyniadau.'

#### **Ffynhonnell: Cyngor Sir Ynys Môn**

'Os na ellir dynodi ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol a chryfhau polisiau oddi mewn iddynt, ni fydd gobaith cadw'r Gymraeg yn iaith fyw.'

#### **Ffynhonnell: Hawl i Fyw Adra**

Cynigiwyd modelau neu ddulliau amrywiol ar gyfer dynodi AAIA. Ceir isod enghraifft o un model bras a gyflwynwyd fel sail ar gyfer targedu cefnogaeth i gymunedau Cymraeg. Cyfeiriodd sawl ymateb at yr angen i raddoli dynodiadau o AAIA ac amrywio'r gefnogaeth/gyfundrefn i adlewyrchu'r gwahanol ganrannau o siaradwyr Cymraeg o fewn cymunedau.

'Mae angen diffinio'n fanwl beth a olygir wrth "gymuned Gymraeg", gan gynnwys "canran o siaradwyr Cymraeg" a "chymuned ieithyddol ddaearyddol". Credwn fod angen trothwy is na 70% bellach gyda diflaniad wardiau/cymunedau 70%+ o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr a Cheredigion a throthwy o dan 50% yn sirol gronns. Ein barn yw bod angen diffinio cymunedau Cymraeg fel rhai lle mae 40%+ yn gallu siarad Cymraeg. Ond eto i gyd, mae angen categorïau o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol gyda'r warchodaeth/monitro mwyaf trylwyr mewn cymunedau 60%+ o siaradwyr Cymraeg (sef Gwynedd, Ynys Môn ac ardal Uwch-Aled yng Nghonwy). Casglwn ni mai cymunedau neu adrannau etholiadol sydd mewn golwg yma yn hytrach nag ardaloedd ehangach megis Dwyfor neu siroedd cyfan. Mae angen felly edrych ar ganrannau adrannau etholiadol ledled Cymru yn y lle cyntaf a chynnig ein bod ni'n argymhell graddoli dynodiadau Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol tebyg i'r canlynol:



- Categori 1 Uchaf: (i) 70%+ , a (ii) 60%-69%
- Categori 2 Canolig: 40-59%
- Categori 3 Sylfaenol: 26-39%
- Categori 4 Gwaelodlin: 0-25%

Byddai i'r ardaloedd hyn statws uwch o warchodaeth i'r iaith mewn pob math o ddatblygiadau cynllunio gwlad a thref, gyda phwysoliad uwch yn cael ei gymryd gan swyddogion cynllunio a swyddog iaith Awdurdod Lleol ar asesiadau effaith ieithyddol neu ddatganiadau iaith.'

**Ffynhonnell: Dyfodol i'r iaith**

'O safbwynt tai a chynllunio, mae'r syniadau i greu ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol i'w groesawu gyda angen i bolisiau fod yn wahanol ble mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn economaidd, byddai pwyslais ar yr economi sylfaenol yn allweddol mewn cymunedau Cymraeg – hynny yw, pwyslais ar y busnesau bach a chanolig a'r mentrau cymdeithasol sy'n darparu'r gwasanaethau hanfodol yna i drigolion.'

**Ffynhonnell: Partneriaeth Ogwen**

Llwybr datblygu'r Gymraeg ar draws pob ardal o Gymru

Cyflwynodd Cymdeithas yr Iaith gynnig arall, gan awgrymu y dylid seilio cefnogaeth ar y cysyniad o gontinwmm iaith Gymraeg.

'Argymhellwn sefydlu Llwybr Datblygu'r Gymraeg a fydd yn cynnwys pob ardal o Gymru ac yn anelu at gryfhau sefyllfa'r Gymraeg ym mhob rhan o'r wlad. Y nod hir dymor ym mhob rhan o Gymru yw cyrraedd sefyllfa lle mai'r Gymraeg fydd y brif iaith gymunedol. Mae cysyniad y Llwybr (neu continwmm) yn un sydd wedi'i ddefnyddio ym maes addysg a gellir elwa o arfer da yn y maes hwnnw. Wrth sefydlu Llwybr o'r fath, awgrymir defnyddio'r canlynol fel egwyddorion ar gyfer y canllawiau newydd.

- (i) Cynnwys rhestr o faterion sylfaenol sy'n effeithio ar y Gymraeg y dylid mynd i'r afael â nhw ym mhob rhan o Gymru.
- (ii) Sefydlu gwahanol gategorïau ieithyddol mewn amrywiaeth feysydd, a theilwra polisiau addysg, iaith weinyddol, prosiectau, tai a chynllunio yn ôl y categorïau ieithyddol hyn. Yn hytrach na dau gategori ('sensitif' neu beidio), dylai fod, o leiaf, dri neu bedwar categori y mae'n rhaid i bob ardal o'r wlad fod yn rhan ohono, gan roi ystyriaeth i'r Gymraeg ar wahanol raddfeydd.
- (iii) Gall fod awgrymiadau o ran sut i bennu'r ardaloedd hyn, ond byddai'n rhaid rhoi hyblygrwydd, megis dewis rhwng niferoedd (a all fod yn fwy perthnasol o fewn ardaloedd trefol) a chanrannau fel maen prawf o ran penderfynu lle mae cymuned yn eistedd o fewn y llwybr.
- (iv) Dylai fod rôl glir gan Gomisiynydd y Gymraeg i roi cyngor i awdurdodau cynllunio o ran sut i gategoreiddio cymunedau. Dylai hefyd fod rôl gan y Comisiynydd o ran cymeradwyo'r hunan-asesiadau a monitro'r cynnydd.'

**Ffynhonnell: Cymdeithas yr Iaith**

## 2.3 Corff cynllunio ieithyddol

Yn gysylltiedig â'r materion uchod, codwyd pwyntiau gan ymatebwyr ynghylch yr angen am endid i arwain neu gydlynu polisi yn yr ardaloedd Cymraeg. Cyflwynwyd syniadau ar gyfer gwahanol fodelau posibl gan gynnwys sefydlu 'uned' o fewn Llywodraeth Cymru i arwain ar y gwaith a/neu rhoi cyfrifoldebau a swyddogaethau i gorff hyd braich. Nododd un ymatebydd y dylid ystyried sawl cam i'r broses, gan ddechrau gyda sefydlu 'is-adran o Lywodraeth Cymru ar

y cychwyn [er mwyn gweithredu polisïau cydnaws â ffyniant cymunedau Cymraeg] gan ystyried addasrwydd datblygu corff swyddogol hyd braich o'r llywodraeth maes o law' (Mentrau Iaith Cymru).

### Cynnig 3: Datblygu corff cynllunio ieithyddol

'O annog datblygu cynllunio a pholisïau rhanbarthol i hyrwyddo'r Gymraeg, cwestiwn allweddol yw pwy fyddai'n gyfrifol am gydlynu'r gwaith ... Dau opsiwn amlwg fyddai sefydlu tîm penodol o fewn Llywodraeth Cymru i arwain ar y gwaith o fewn "cymunedau Cymraeg", tîm fyddai wedi ei leoli yn y cadarnleoedd. Yr opsiwn arall fyddai sefydlu asiantaeth gynllunio iaith rhanbarthol.'

#### **Ffynhonnell: Prifysgol Aberystwyth**

'Er mwyn darparu'r gefnogaeth a datblygu'r polisïau ar gyfer cymunedau Cymraeg, mae'n amlwg y bydd yn rhaid wrth fath o strwythur lywodraethu.

- Credwn fod yn rhaid i'r arweiniad ddod gan y Llywodraeth yn y lle cyntaf. Fel cam cychwynol, dylid dynodi is-adran ac iddi swyddogion penodedig er mwyn dangos yn glir ei bod o ddifrif ynghylch y gwaith.
- Gellid hefyd ystyried corff hyd-braich tebyg i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, neu ddefnyddio elfennau o reolaeth cyrff fel parciau cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol fel modelau posibl.'

#### **Ffynhonnell: Mentrau Iaith Cymru**

'Rydym yn awgrymu bod y Llywodraeth yn sefydlu Grŵp Polisi, er mwyn sicrhau bod arbenigwyr mewn meysydd polisi penodol yn cyd-drafod gyda chynllunwyr iaith, er mwyn sicrhau bod cymalau ynghylch defnydd y Gymraeg yn rhan o unrhyw bolisi newydd gan Lywodraeth Cymru.'

#### **Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion**

#### Swyddogaethau posibl i gorff newydd

Aeth ambell i ymateb ymhellach, gan awgrymu enw i'r corff a llunio rhestr o swyddogaethau posibl ar gyfer endid neu 'awdurdod':

'Sefydlu Awdurdod Datblygu Cymunedau Cymraeg, corff a fyddai â'r amcan o gynnal, atgyfnerthu a chreu peuoedd cwbl Gymraeg... Byddai'n gyfrifol am y canlynol:

- a. Rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol ar gynllunio iaith i Lywodraeth Cymru ac i'r awdurdodau lleol.
- b. Darparu cymorthdaliadau a chynngor arbenigol i gefnogi datblygiad busnesau Cymraeg a darpar-fentergarwyr Cymraeg.
- c. Cyfrannu yn y broses o lunio a chymhwyso strategaeth a pholisïau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol yn unol â'r egwyddor fod lles a ffyniant y Gymraeg fel iaith gymunedol yn rhagamod hanfodol.
- ch. Llunio a gweithredu strategaeth hybu defnydd o'r Gymraeg drwy ddulliau soffistigedig sydd wedi profi'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd cymharol mewn gwledydd eraill.

Cefnogi rhaglen o weithgareddau hamdden amrywiol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc yn y gymuned drwy'r Mentrau Iaith, yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, clybiau chwaraeon a threfnwyr adloniant.'

#### **Ffynhonnell: Cylich yr Iaith**

Cafwyd gwahaniaeth barn ymysg ymatebwyr mewn perthynas â rôl bosibl awdurdodau lleol dan unrhyw drefniadau cynllunio ieithyddol newydd. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid ‘annog cynghorau [sir] i benodi swyddogion ac iddynt gyfrifoldeb penodol dros sicrhau bod eu holl bolisiau yn gydnaws â llesiant cymunedau Cymraeg.’ Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr eraill nad oeddent o blaid rhoi swyddogaethau cynllunio ieithyddol i awdurdodau lleol ac y dylid gweithredu trwy Lywodraeth Cymru neu asiantaeth sy’n atebol i’r Llywodraeth. Yn fwy penodol, roedd un unigolyn o’r farn ‘nad oes llawer o hanes a dealltwriaeth o’r maes “cynllunio iaith” o fewn awdurdodau lleol, a maent yn annhebyg o ddatblygu rôl a gweithgaredd “cynllunio iaith” sylweddol oni bai bod cymysgedd o orfodaeth a cymhelliant ariannol gan [Lywodraeth Cymru] i wneud hynny.’

Wrth drafod y cysyniad o sefydlu corff cenedlaethol, cyfeiriodd un ymatebydd at yr angen i sicrhau nad yw materion yn ymwneud â’r Gymraeg a chynllunio i ddiogelu cymunedau Cymraeg yn cael eu hystyried fel cyfrifoldeb un corff yn unig. Nododd ymateb Cyngor Sir Gâr bod ‘tueddiad wedi bod i adael y Gymraeg i’r Comisiynydd Iaith Gymraeg a bach iawn o gynllunio a dealltwriaeth o ran cymunedau Cymraeg [sydd] o fewn gwaith ac allbwn swyddfa’r Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol.’ Aeth ei ymateb ymlaen i alw am sicrwydd bod ‘dealltwriaeth o ofynion unigryw cymunedau Cymraeg yn bodoli o fewn holl sefydliadau ac asiantaethau cenedlaethol Cymru.’

## 2.4 Cryfhau Safonau’r Gymraeg fel offeryn i gefnogi cynllunio ieithyddol

Yn dilyn pwyntiau yn yr is-adran flaenorol ar swyddogaethau awdurdodau lleol wrth gryfhau a chynnal cymunedau Cymraeg, cyfeiriwyd yn yr ymatebion at y cyd-destun rheoleiddio cyfredol lle mae awdurdodau yn ‘ddarostyngedig i safonau’r Gymraeg, ...gan gynnwys dosbarth o safonau penodol yn ymwneud â hybu’r Gymraeg’ (Comisiynydd y Gymraeg). Soniodd Comisiynydd y Gymraeg yn ei hymateb am ofynion ar awdurdodau lleol i gynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardaloedd yn eu strategaethau hybu’r Gymraeg bob 5-mllynedd.

Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr yr angen am drefniadau cryfach (a chyllid priodol) er mwyn cefnogi gweithgareddau awdurdodau lleol mewn perthynas â’r Safonau.

‘Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol gyfrannu at y gwaith drwy eu Strategaethau Hybu’r Gymraeg (gofyniad Safon 145/146). Mae angen trefn fwy cydlynus ar gyfer y gefnogaeth a’r gyllideb sydd ar gael ar gyfer gweithredu’r cynlluniau hyn yn lleol, er mwyn medru buddsoddi mewn technoleg ac adnoddau a all wneud gwahaniaeth i ddefnydd y Gymraeg.’

**Ffynhonnell: Cyngor Ceredigion**

Cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg yn ei hymateb at safonau llunio polisi, sy’n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried effaith polisi ar y Gymraeg. Nodwyd bod sawl cyhoeddiad y dylai’r Comisiwn eu hystyried:

- [Safonau Llundio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg](#) (Comisiynydd y Gymraeg, 2020)
- [Safonau hybu: asesu cyrhaeddiad y strategaethau 5-mllynedd Dogfen gyngor arferion effeithiol](#) (Comisiynydd y Gymraeg, 2021)

Cyfeiriodd y Comisiynydd at ddangosyddion o fewn y dogfennau hyn ar gyfer ‘mesur traweffaith y strategaethau hybu a chyfeiriad at ymchwil a gwybodaeth berthnasol i waith y Comisiwn.’

Wrth drafod gweithredu'r safonau llunio polisi, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod 'gwendid sylfaenol' yn y trefniadau cyfredol y gellir ei olrhain yn ôl i ddarpariaethau Mesur y Gymraeg. Cafwyd cymhariaeth â'r sefyllfa ym maes cynllunio lle mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried effaith penderfyniadau cynllunio ar yr amgylchedd.

#### **Cynnig 4: Ystyried newid y Safonau i fod yn ddyletswyddau statudol**

'...mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng y ddau fath o ddyletswydd yn yr hyn sydd yn digwydd os nad yw'r awdurdod yn cadw at y dyletswydd dan sylw. Os yw awdurdod yn methu â chadw at ei ddyletswydd o ran effaith penderfyniad cynllunio ar yr amgylchedd, fe ellir gwneud cais am adolygiad barnwrol o'r methiant hwnnw. O wneud hynny, gall y llys, mewn achos priodol, wahardd yr awdurdod rhag bwrw mlaen gyda'i benderfyniad hyd nes ei fod wedi cynnal yr ymgynghoriad priodol a/neu ystyried y materion priodol. Os yw awdurdod yn methu â chadw at ei ddyletswydd dan y safonau polisi o ran effaith ar y Gymraeg, fodd bynnag, nid yw cais am adolygiad barnwrol fel pe bai'n opsiwn ar hyn o bryd. Yr unig gam posib i aelod o'r cyhoedd yn yr amgylchiadau hyn yw gwneud cwyn i'r Comisiynydd. Nid oes pwerau gan y Comisiynydd i wneud dim ond cynnal ymchwiliad ac, os yw'n canfod y bu torri ar y safonau, osod sancsiwn. Yn wahanol i'r llysoedd, does gan y Comisiynydd ddim grym i atal awdurdod lleol rhag bwrw mlaen â'i bolisi neu ei gynlluniau hyd nes bo'r awdurdod wedi gwneud yr hyn sy'n ofynnol dan y safonau. Mae modd felly i'r awdurdod fwrw mlaen heb gynnal ymgynghoriad trylwyr, neu o gwbl, neu heb ystyried yr effaith ar y Gymraeg. Gellir cyfeirio at achos Ysgol Felindre fel enghraifft o hyn. Mae lle i gryfhau'r drefn drwy newid y safonau polisi i fod yn ddyletswyddau statudol, fel na bo modd eu hosgoi. Byddai hynny hefyd yn annog awdurdodau lleol i gymryd eu cyfrifoldeb tuag at ddiogelu a chynnal cymunedau Cymraeg yn fwy o ddifri.'

**Ffynhonnell: Prifysgol Aberystwyth**

## 3. Maes polisi addysg

---

Mae'r bennod hon ar y maes polisi addysg yn cyflwyno cynigion mewn perthynas â:

- Trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu;
- Blynyddoedd cynnar;
- Trochi hwyrddyfodiaid;
- Categoriaddio ysgolion;
- Addysg uwchradd;
- Cyllido addysg uwch; ac
- Addysg bellach.

### 3.1 Trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu

---

Cyfeiriodd ymatebwyr at bwysigrwydd trosglwyddo iaith yn y cartref, gan nodi bod hynny'n chwarae rhan hanfodol fel cam cyntaf ar y daith o drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf. Er nad yw'n ymwneud ag addysg fel y cyfryw, roedd rhai ymatebwyr yn pwysleisio bod mynd i'r afael â chyfraddau trosglwyddo yn fater brys. Mae angen 'ymyraethau ar lefel arbenigol, sy'n dod o sawl cyfeiriad,' awgrymodd Menter Môn, gan fod 'data [cenedlaethol a lleol i Fôn] yn dangos bod y cyfraddau yn gwaethygu'n gyflym a chredwn felly nad oes amser i geisio deall y sefyllfa yn gyfan gwbl cyn gweithredu' (Menter Môn). Roedd Mudiad Meithrin hefyd yn pwysleisio'r angen i 'galonogi a chefnogi rhieni, teuluoedd ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar' ac yn nodi, er bod cynlluniau eisoes yn bodoli, nid yw pob ymyrraeth 'yn cael eu gweithredu i'w llawn botensial a hyn am resymau ariannol.'

### 3.2 Blynyddoedd cynnar

---

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr ddymuniad am ddigon o lefydd cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg, yn benodol mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg a chael cylch meithrin ar safle pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nodwyd y syniadau hyn fel dyheadau yn hytrach na chynigion penodol. Cafwyd rhai cynigion penodol ar weithgarwch a allai arwain at gynyddu'r ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg.

#### Cynnig 5: Cefnogi gofal plant a darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg

'Mae angen ymgyrchoedd cenedlaethol parhaol i hybu a hyrwyddo gofal plant ag addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a theuluoedd. Mae ymgyrchoedd marchnata llywodraethol sydd yn addysgu'r boblogaeth yn cario statws unigryw sydd yn wahanol i ymdrechion hybu a hyrwyddo sydd yn ddibynnol ar gydweithrediad amryw o fudiadau a sefydliadau llawr gwlad....Hoffai Mudiad Meithrin weld ymgyrch ddwys i gyrraedd rhieni yn uniongyrchol i hyrwyddo gofal plant ac addysg Gymraeg i bawb yng Nghymru. Mae'r ymdrechion hybu a hyrwyddo presennol yn anuniongyrchol ac yn ddibynnol ar gydweithrediad amryw o fudiadau a sefydliadau sydd yn ceisio hybu eu gwasanaethau (eraill) penodol eu hunain. Dylai Llywodraeth Cymru barhau a datblygu'r gwaith hwn.'

**Ffynhonnell: Mudiad Meithrin**

'Lle mae'r CSGA'n adnabod ysgolion fydd yn symud ar hyd continwwm iaith, dylid rhoi amserlen ar hynny a chydweithio gyda Mudiad Meithrin i ddatblygu Cylch Meithrin cyfagos.'

**Ffynhonnell: Mudiad Meithrin**

'Gellid ystyried cyllido dosbarthiadau meithrin o fewn pob ysgol cyfrwng Cymraeg' [a] 'Cysoni'r disgwyliad ieithyddol o ran darpariaeth gofal plant nas gynhelir. [Mae] Mudiad Meithrin a [Blynyddoedd Cynnar Cymru] angen canolbwytio ar rôl caffael iaith yn hytrach na cael eu harolygu fel dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion.'

**Ffynhonnell: Cyngor Ceredigion**

'Mae'n hanfodol bod yma ymdrech gyson, i sicrhau bod ymarferwyr Dechrau'n Deg yn ymwybodol ac yn annog defnyddio'r Gymraeg gyda babanod a'u rhieni. Mae gwaith yn digwydd eisoes rhwng yr Awdurdodau Lleol a ni fel Menter Iaith i sicrhau hyn, ond credwn bod angen strategaeth clir, cryfach, a hynny yn genedlaethol.'

**Ffynhonnell: Menter Môn**

### 3.3 Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAu)

Teimlodd sawl ymatebydd bod angen cryfhau statws y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Nodwyd yr angen i gydbblethu CSCAu gyda meysydd gwaith ehangach awdurdodau lleol – gan gysylltu'r strategaethau hyn gyda Strategaethau pum mlynedd hybu'r Gymraeg ond hefyd cynlluniau datblygu lleol a chynlluniau eraill sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ar draws ystod o feysydd polisi.

#### **Cynnig 6: Cryfhau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynyddu capasiti a dealltwriaeth awdurdodau lleol**

'Grymuso'r CSGA ar lefel Llywodraeth Cymru a sefydlu cyrff rhanbarthol/lleol a fyddai'n mynnu cydymffurfiaeth.'

**Ffynhonnell: UCAC**

'Daw'n siom i ni o hyd cyn lleied o ymwybyddiaeth sydd mewn rhai awdurdodau lleol am y strategaeth yma y tu hwnt i'r adran addysg ac weithiau swyddogion sydd ddim o reidrwydd yn ymwneud â gwireddu'r cynllun..... Ac felly mae angen, yn ystod y broses hon, edrych yn fanylach ar statws y strategaeth hon o fewn yr awdurdodau lleol dan sylw a sut y mae'n cydbblethu drwy holl agweddau gwaith yr awdurdodau lleol.'

**Ffynhonnell: RhAG**

Cynnwys darpariaethau o fewn Deddf Addysg Gymraeg newydd sy'n berthnasol i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg sy'n 'gosod targedau ar bob awdurdod fel bod pob plentyn yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050.'

**Ffynhonnell: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**



### 3.4 Ymestyn cyfleoedd i hwyrddyfodiaid i gaffael yr iaith

Rhodddwyd sylw gan nifer sylweddol o ymatebwyr i'r angen i sicrhau cyfleoedd i blant teuluoedd sydd yn symud i gymunedau Cymraeg fedru caffael yr iaith gan gynnig llwybrau i addysg Gymraeg. Gan gydnabod bod darpariaeth ar gael mewn nifer o ganolfannau trochi ar draws cymunedau Cymraeg, nodwyd yr angen i ymestyn a hyrwyddo'r ddarpariaeth o'r blynyddoedd cynnar i addysg uwchradd, gan ystyried targedu darpariaeth yn ehangach na hwyrddyfodiaid yn unig.

#### Cynnig 7: Ymestyn cyfleoedd i hwyrddyfodiaid a phlant eraill i gaffael yr iaith

'Dilyn esiampl Môn trwy osod pwyslais ychwanegol ar gyflwyno'r Gymraeg a throchi plant yn yr iaith yn ystod y blynyddoedd cynnar.'

**Ffynhonnell: Cyngor Ynys Môn**

'Ariannu a sefydlu canolfannau trochi/carlam ymhob ysgol uwchradd.'

Awgrymwyd cysylltu arian grantiau addysg gyda darpariaeth i hwyrddyfodiaid, a dyheadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 'gan wobrwyo gweledigaeth ac effaith gweithredoedd.'

**Ffynhonnell: Cyngor Ceredigion**

'Law yn llaw gyda chynigion i ymestyn darpariaeth i hwyrddyfodiaid a chynlluniau trochi, nododd ymatebwyr yr angen i sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol a Datblygiad Dysgu Parhaol ar gael i wreiddio dealltwriaeth o strategaethau trochi ymysg y gweithlu addysg yng Nghymru.'

**Ffynhonnell: Cyngor Ceredigion**

### 3.5 Categorioidio ysgolion

Awgrymodd ymatebwyr bod y trefniadau categorioidio ysgolion presennol wedi gwanhau darpariaeth ieithyddol o'u cymharu â threfniadau blaenorol. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at yr angen i annog ysgolion i symud ar hyd y continwwm iaith. Fodd bynnag, cyflwynodd sawl mudiad gynigion mwy pendant yn awgrymu diwygio'r system categorioidio a chyflwyno polisïau ieithyddol mwy blaengar ar lefel awdurdodau lleol er mwyn diogelu a thyfu addysg Gymraeg.

#### Cynnig 8: Diwygio polisïau addysg cynghorau sir a chategorioidio ysgolion

'Addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig mewn awdurdodau lleol penodol e.e. Môn, Gwynedd, Ceredigion, Sir Gâr ac mewn ardaloedd penodol o fewn awdurdodau lleol eraill, gan sicrhau darpariaeth drochi i hwyrddyfodiaid.'

**Ffynhonnell: UCAC**

'Dylai holl addysg gynradd ac uwchradd gael ei gynnig yn Gymraeg, a Chymraeg yn unig, yn ysgolion yr ardaloedd hyn.'

**Ffynhonnell: Unigolyn**

'Dylid gosod trefn ac amserlen i symud pob ysgol yn siroedd Gwynedd ac Ynys Môn i fod yn ysgolion Cymraeg (3P) a chyfran helaeth o ysgolion yn siroedd Ceredigion a Chaerfyrddin.'



Byddai cyhoeddi'r bwriad yn glir yn un cam ymlaen, ac wedyn mae angen gweithredu uniongyrchol sydd yn ôl pob tebyg yn cychwyn gydag ysgolion cynradd i droi ysgolion yn ysgolion cyfrwng Cymraeg rhag blaen. Mae'n dilyn wrth reswm felly na ddylid penodi unrhyw athrawon neu gynorthwyr pellach i unrhyw ysgol yn y pedair sir heb sgiliau Cymraeg perthnasol i'r swydd. O fabwysiadu'r drefn o Addysg Gymraeg, byddai modd cyfathrebu yn glir i bawb sy'n dod i fyw i'r ardal mai iaith addysg yr ardal yw'r Gymraeg.

Mae angen 2 gategori i ysgolion lle mae 100% o'r disgyblion yn dilyn cyrsiau trwy'r Gymraeg:

Categori 1 A: Ysgolion lle mae 100% o'r disgyblion yn dilyn fwy neu lai 100% o'r pynciau trwy'r Gymraeg a'r Gymraeg yw iaith gyffredin gweithgareddau ysgol-gyfan a gweithgareddau allgyrsiol.

Categori 1B: Ysgolion lle mae 100% o'r disgyblion yn dilyn 80%+ o'r pynciau trwy'r Gymraeg a'r Gymraeg yw iaith gyffredin gweithgareddau ysgol-gyfan a gweithgareddau allgyrsiol.

Yna gellir cael amrywiadau ar Gategori 2, i gynnwys ysgolion 'dwyieithog' a rhai 'dwy ffrwd' presennol, e.e.

Categori 2A: Ysgolion 60% o'r disgyblion yn dilyn o leiaf 70% o bynciau trwy'r Gymraeg

Categori 2B: Ysgolion 40% o'r disgyblion yn dilyn o leiaf 60% o bynciau trwy'r Gymraeg

Categori 2C: Amrywiadau gwannach

Categori 3: Ysgolion lle y dechreuir cyflwyno rhai pynciau trwy'r Gymraeg i bob disgybl.'

**Ffynhonnell: Dyfodol i'r Iaith**

'Gosod targedau ar gyfer ysgolion i ddarparu mwy o bynciau academaidd statws uchel drwy'r Gymraeg a normaleiddio astudio'r pynciau hyn drwy'r Gymraeg.'

**Ffynhonnell: Prifysgol Aberystwyth**

### 3.6 Addysg bellach a galwedigaethol

Nododd ymatebwyr yr angen i gryfhau darpariaeth cyrsiau a modiwlau addysg bellach yn y Gymraeg. Awgrymwyd bod nifer o bobl ifanc o gefndiroedd Cymraeg 'yn dewis cefnu ar addysg bellach trwy'r Gymraeg er eu bod yn debygol o barhau i fyw a gweithio yn yr ardal/sir. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc sy'n dilyn cyrsiau ar gyfer galwedigaethau allweddol megis gofal, gofal plant, iechyd, a gwasanaethau cyhoeddus.'

#### **Cynnig 9: Ymestyn cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg, a chefnogi sgiliau llafar drwy'r cyrsiau**

'Sicrhau bod yna gyfleoedd i unigolyn ddilyn cyrsiau galwedigaethol perthnasol ac ystyrlon trwy gyfrwng y Gymraeg, ar y cyd gyda chyfleoedd i aelodau presennol y gweithlu i ddatblygu ac i gryfhau eu sgiliau Cymraeg. Awgrymwn y dylid mynnu fod elfen asesiad llafar y cyrsiau galwedigaethol hyn yn digwydd yn Gymraeg er mwyn sicrhau bod gan aelodau newydd o'r gweithlu'r sgiliau sylfaenol angenrheidiol.'

**Ffynhonnell: Mudiad Meithrin**

'O ystyried y cwmp mewn siaradwyr 18-24 oed, mae angen pwyslais mwy ar addysg alwedigaethol a chreu cyfleoedd gwaith cyfrwng Cymraeg. Byddai datblygu cynllun prentisiaethau Cymraeg yn fanteisiol gan roi cyfle i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gael profiad gwaith dwys mewn mentrau cymdeithasol neu fusnesau ble mae'r Gymraeg yn iaith

weinyddol gadarn. Mae Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Gwynedd yn bartner perffaith i beilota'r math yma o gynllun a mae cynllun "Llechi, Glo a Chefn Gwlad" yn fodel sydd eisoes wedi llwyddo.'

**Ffynhonnell: Partneriaeth Ogwen**

'Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn cyrsiau addysgol proffesiynol cyfrwng Cymraeg mewn Colegau Addysg Bellach, Addysg Uwch a Phrifysgolion, lle mae prinder arbenigedd yn lleol.'

**Ffynhonnell: Cyngor Ceredigion**

### 3.7 Addysg uwch

---

Nododd sawl ymatebydd bryderon ynghylch niferoedd y bobl ifanc sydd yn gadael Cymru, a chymunedau Cymraeg yn benodol, er mwyn dilyn addysg uwch. Mynegodd sawl sefydliad ac unigolyn y farn fod rhaglen Seren wedi cyfrannu at y patrwm o allfudo ymysg pobl ifanc o Gymru. Cafwyd nifer o sylwadau yn cefnogi'r syniad o ddilyn trefniadau yn yr Alban, er enghraifft, lle ceir polisi a threfniadau ariannol sydd yn cymhell pobl i dderbyn addysg yn y wlad honno.

#### **Cynnig 10: Diwygio system cymorth-daliadau myfyrwyr**

'Dylid mabwysiadu polisi os yw myfyrwyr yn dewis mynd i brifysgol yn Lloegr a Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r myfyrwyr yn ariannol, eu bod yn dychwelyd i Gymru i weithio am bum mlynedd ar ôl cwblhau'r cwrs, neu fod y cymorthdal ariannol yn fenthyciad na fyddai angen ei ad-dalu pe bai'r myfyrwyr yn dychwelyd i weithio am bum mlynedd. Gorau oll, pe bai'r sector cyhoeddus yn gallu eu cyflogi am gyfnod penodol er mwyn cryfhau cyfleoedd gwaith a phrofiad i fyfyrwyr dwyieithog.'

**Ffynhonnell: Dyfodol i'r Iaith**

## 4. Maes polisi amaeth a defnydd tir

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y nifer uchel o siaradwyr Cymraeg sydd yn gweithio yn y sector amaeth. Mae gan y sector amaeth yng Nghymru ganran sylweddol uwch (43%) o weithwyr sy'n siarad Cymraeg o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%, sy'n golygu mai dyma'r diwydiant â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg.<sup>1</sup> Mae hyn yn amlygu cyd-berthynas gryf rhwng y Gymraeg a'r diwydiant amaeth, gan nodi ei bwysigrwydd i ddyfodol yr iaith fel iaith gymunedol. Dyma oedd cyd-destun nifer fawr o'r ymatebion yn y maes polisi amaeth.

### 4.1 Cefnogi ffermydd llai a ffermydd teulu

Roedd diogelu ffermydd teulu yn bryder cyffredin ymhlith yr ymatebwyr, a chyflwynwyd awgrymiadau ar gyfer sicrhau eu cynaliadwyedd a'u gwydnwch.

#### Cynnig 11: Sicrhau sefydlogrwydd ffermydd teulu

'Rhoi ystyriaeth i argymhellion yr adroddiad [Iaith y Pridd](#) 2020, yn cynnwys awgrymiadau'n cynnwys "Sicrhau bod polisiâu a'r system gymorthdaliadau yn cefnogi gweithgarwch ar y fferm deulu" a "Sicrhau bod y gyfundrefn gynllunio yn cefnogi mentrau a chymunedau gwledig".'

**Ffynhonnell: Menter a Busnes, Cyngor Sir Ceredigion ac NFU Cymru**

Mae'r [Bil Amaethyddiaeth \(Cymru\)](#) yn sefydlu Rheoli Tir Cynaliadwy fel y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer polisi amaethyddol y dyfodol. Mae'r fframwaith polisi yn canolbwyntio ar amcanion ategol cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy. Un syniad gafodd ei gynnig oedd diwygio'r Bil i gynnwys cefnogaeth i ffermydd teuluol yn benodol:

'Er bod croeso i'r penderfyniad i gynnwys cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a'r iaith Gymraeg o fewn y pedwar amcan sylfaenol ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel yr amlinellir yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) drafft, mae Undeb Amaethwyr Cymru yn parhau i lobio dros gynnwys pumed amcan i fynd ati'n benodol i geisio sicrhau sefydlogrwydd economaidd i deuluoedd amaethyddol.'

**Ffynhonnell: Undeb Amaethwyr Cymru**

'Gellid cynnig grantiau i ffermwyr werthu tir amaethyddol ar gyfer eu datblygu'n Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol (Community Land Trusts).'

**Ffynhonnell: Unigolyn**

'Dylid tynnu cymorthdaliadau oddi ar y ffermydd mwyaf a rhoi mwy o cymorthdaliadau i'r ffermydd deuluol. Does dim synwyr yn y byd fod rhai amaethwyr yn derbyn cannoedd o filoedd o bunnoedd.'

**Ffynhonnell: Unigolyn**

'Rather than plan rural social housing why not reintroduce tenant farms which would retain young farmers in their communities, be an investment for Councils and take into account local need.'

**Ffynhonnell: Unigolyn**

<sup>1</sup> Ffigurau o ymateb Menter a Busnes

## 4.2 Polisi Coedwigaeth

---

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bolisiau a rheoliadau presennol ac, mewn rhai achosion, at ganlyniadau anfwriadol negyddol rhai targedau. Cafwyd argymhellion i wahardd cwmnïau mawr o'r tu allan i Gymru rhag prynu tir, yn ogystal ag adolygu polisiau coedwigaeth a defnydd tir, gan y dywedwyd fod y polisiau hynny'n cael effeithiau sylweddol ar economi ac amgylchedd Cymru ac y gallant ddisodli perchnogaeth bresennol ffermydd teuluol. Roedd rhai yn dweud y dylai plannu coed ar dir amaethyddol fod yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio. Drwy flaenoriaethu perchnogaeth a rheoli tir ac adnoddau yn lleol, meddai ymatebwyr, gallai Llywodraeth Cymru hybu arferion cynaliadwy a rhai wedi'u harwain gan y gymuned, tra'n diogelu hawliau pobl leol i gael mynediad at eu hadnoddau naturiol eu hunain ac elwa arnynt.

## 4.3 Cadwraeth a bioamrywiaeth

---

Nododd ymatebwyr fod sicrhau diogelwch bwyd ar gyfer cymunedau lleol a chynhyrchu mwy o fwyd yn lleol yn gam posibl ond ni wnaed unrhyw gynigion penodol, heblaw am rai pwyntiau cyffredinol am arallgyfeirio ffynonellau bwyd lleol, hyrwyddo bioamrywiaeth, a chefnogi unedau amaethyddol llai. Yn yr un modd, er na wnaed unrhyw gynigion penodol ynghylch cadwraeth a diogelu'r amgylchedd, cwestiynodd rai ymatebwyr lle byddai hyn yn perthyn fel rhan o rôl y Comisiwn ac awgrymwyd bod angen cynnwys y meysydd polisi hyn.

## 5. Meysydd polisi adfywio a datblygu economaidd

Rhodddwyd cryn dipyn o sylw i faterion datblygu economaidd ac adfywio gan ymatebwyr, gyda nifer ohonynt yn fframio eu sylwadau a'u hawgrymiadau fel syniadau ar gyfer mynd i'r afael â'u pryder mwyaf, sef allfudo ymysg yr ifanc:

'Y prif broblem sy'n wynebu Ceredigion yn gyffredinol o safbwynt y Gymraeg yw allfudo. Mae data am hyn wedi bod ar gael am amser hir ond mae'r cyfrifiad diweddaraf yn dangos y ffenomenon yn glir. Mae ffactorau economaidd fel diffyg swyddi da ac anfforddiadwyedd tai yn gwthio pobl ifanc Cymraeg eu hiaith allan o'r ardal.' (Cyngor Tref Aberystwyth)

### 5.1 Ehangu a chyllido Cynllun ARFOR

Cyfeiriodd nifer helaeth o ymatebwyr at bwysigrwydd sicrhau cynlluniau economaidd, cymunedol ac ieithyddol cryf a chydlynus. Nodwyd hefyd yr angen am gyllid digonol dros y tymor canolig a'r hirdymor er mwyn i gynlluniau ddwyn ffrwyth. Tanlinellwyd pwysigrwydd Rhaglen ARFOR sydd wedi cefnogi mentergarwch a'r economi wledig yng Ngheredigion, Sir Gâr, Ynys Môn a Gwynedd fel modd o gynnal y Gymraeg yn ei chadarnleoedd.

#### Cynnig 12: Adeiladu ar Raglen ARFOR ac ymrwymiad i'w ariannu

'Credwn fod angen ehangu cynllun Arfor i'r tymor canol, dim llai na 5 mlynedd, a neilltuo cyllid digonol er mwyn cynyddu a hyrwyddo datblygiad economaidd yng ngofal siaradwyr Cymraeg.'

##### **Ffynhonnell: Dyfodol i'r Iaith**

Cyflwynwyd sawl cynnig gan wahanol ymatebwyr y gellid eu hymgorffori neu eu blaenoriaethu fel rhan o weithrediad Arfor 2:

- 'Ffocysu ar greu gofodau Cymraeg, gyda'r nod o "creu yr amgylchiadau gorau i bobl weithio, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg".' **Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd**
- 'Annog mwy o gwmnïau o fewn yr ardaloedd i weithredu yn Gymraeg a/neu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg.' **Ffynhonnell: Prifysgol Aberystwyth**
- 'Ceisio denu mwy o gwmnïau ble mae gofyn am sgiliau yn y Gymraeg i leoli eu hunain o fewn yr ardaloedd hyn.' **Ffynhonnell: Prifysgol Aberystwyth**

Cyflwynwyd syniadau tebyg i'r uchod gan ymatebwyr eraill.

Tra bod ARFOR yn cynnig model ar lefel ranbarthol eang ar draws sawl awdurdod lleol, cyfeiriwyd hefyd at y syniad o ddinas-ranbarthau fel model y gellid ei fabwysiadu i gefnogi adfywio a datblygiad economaidd ar raddfa fwy lleol. Cynigiwyd y gallai canolfannau dinesig/trefol fod yn ffocws ar gyfer cynlluniau gan ddysgu o wersi yn Sir Gâr yn deillio o ddatblygiadau yn nhrefi'r sir.

'Mae cynlluniau fel Cynllun 10 Tref Sir Gaerfyrddin yn fodel posibl i'w ystyried a'i efelychu mewn ardaloedd eraill. Ei nod yw gwrthbwysu'r pwyslais ar ddatblygu dinesig a ddaw yn sgil cynllun Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Hyd y gwyddom Sir Gâr yw'r unig sir sydd wedi mynd ati i greu cynllun o'r fath hyd yma, ac rydyn ni'n croesawu eu gweledigaeth, ond yn gweld bod lle a chyfle i gynnig mwy o fudd i'r ardaloedd o amgylch yn y trefi yn hytrach na chanolbwyntio ar y trefi eu hunain. Credwn y dylai unrhyw gynllun tebyg fod dan reolaeth a chyfrifoldeb awdurdod lleol yn hytrach na Llywodraeth ganol. Bydd hi'n bwysig casglu data wrth asesu cynlluniau penodol a datblygu ymyriadau perthnasol; a gosod criteria a allai fod o gymorth wrth asesu cynlluniau arfaethedig, gyda golwg ar beth fydd ei ardrawiad potensial (positif a negyddol) ar yr iaith yn yr ardal benodol.'

**Ffynhonnell: Cymdeithas yr Iaith**

## 5.2 Y Gymraeg fel sgil hanfodol mewn sefydliadau cyhoeddus

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at rôl hollbwysig y byd gwaith a swyddi i sefyllfa'r iaith mewn cymunedau Cymraeg. Dadleuodd nifer o sefydliadau y dylid sefydlu'r egwyddor fod yr holl weithlu sy'n gweithio i'r gwasanaethau cyhoeddus yn siroedd Gwynedd, Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin feddu ar sgiliau dwyieithog. Cynigiwyd y byddai polisi o'r fath yn codi statws, defnydd ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg o fewn yr ardaloedd hynny a thu hwnt.

### **Cynnig 13: Sgiliau Cymraeg yn ofynnol ar gyfer swyddi awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus sy'n gwasanaethu cymunedau Cymraeg**

'Dylid rhoi'r [canllaw] canlynol i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus sy'n gwasanaethu cymunedau Cymraeg [i wneud] y Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer pob swydd.'

**Ffynhonnell: Cylich yr Iaith**

'Mae angen i'r pedair sir, y byrddau iechyd perthnasol, yr heddlu, y Colegau a'r Prifysgolion (o ran trefniant a gweinyddiaeth), sefydliadau cenedlaethol perthnasol, e.e. y Llyfrgell Genedlaethol, oll weithredu ar yr egwyddor eu bod yn gweithredu yn y Gymraeg a bod disgwyl i bob aelod o staff fedru gweithredu yn llawn mewn awyrgylch gwaith dwyieithog. Fel man cychwyn, dylai swyddfeydd ardal, canolfannau hamdden, swyddfeydd cofrestru, llyfrgelloedd a theatrau sector cyhoeddus o fewn ac ar gyrion cymunedau Cymraeg sicrhau gweithlu cyfan gwbl ddwyieithog i allu cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus cyflawn Gymraeg i'r trethdalwyr.'

**Ffynhonnell: Dyfodol i'r Iaith**

Yn dilyn ymlaen o'r pwyntiau uchod, cafwyd rhai cyfeiriadau at y budd economaidd a ddôl o adleoli swyddfeydd a swyddi cyhoeddus (Cymraeg eu hiaith yn enwedig) i gymunedau Cymraeg.

### **Cynnig 14: Adleoli swyddi cyhoeddus i gymunedau Cymraeg**

'Gall Llywodraeth Cymru gefnogi economi [cymunedau Cymraeg] drwy adleoli rhai o'u swyddfeydd i Wynedd a Môn, i ddechrau gwneud iawn am y cyfle a gollwyd ar ddechrau datganoli.'

**Ffynhonnell: Sail**

### 5.3 Strategaeth marchnad lafur

---

Roedd eraill yn dadlau bod angen dull mwy strategol a phwrpasol o gefnogi cyfleoedd cyflogaeth a mynediad at swyddi gan alw am strategaeth marchnad lafur ar gyfer cymunedau Cymraeg.

#### Cynnig 15: Llunio strategaeth marchnad lafur i gymunedau Cymraeg

'Creu strategaeth marchnad lafur ar gyfer cymunedau Cymraeg er mwyn sicrhau bod gwell cyfleoedd i bobl ifanc drosglwyddo o'r byd addysg i swyddi'n lleol.'

**Ffynhonnell: Hawl i Fyw Adra**

'Creu cynllun Farchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg Cenedlaethol fel fod modd cynllunio cyrsiau penodol neu cyrsiau iaith er mwyn llenwi swyddi [lle] fydd gofyn am y Gymraeg.'

**Ffynhonnell: Mentrau Iaith Cymru**

Cysylltu strategaeth marchnad lafur o'r fath â datblygiadau posibl ym maes addysg alwedigaethol oedd cynnig sawl ymatebydd.

### 5.4 Diwygio Trefniadau Caffael

---

Nododd sawl ymatebydd bod cyfleoedd i gefnogi swyddi a datblygiad economaidd mewn cymunedau Cymraeg drwy ail-drefnu prosesau caffael. Cynigiwyd y dylid addasu trefniadau caffael er mwyn manteisio ar, a hybu, gallu cwmnïau lleol i geisio am gytundebau ar draws gwahanol sectorau.

#### Cynnig 16: Ffario cyflenwyr lleol wrth gaffael

'Sicrhau fod tendrau a threfniadau caffael awdurdodau lleol yn nodi disgwyliadau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.'

**Ffynhonnell: Grŵp Cynefin**

'Mae angen ystyried o'r newydd holl broses caffael a chytundebau lefel gwasanaeth mewn cyrff sy'n cyflenwi cymunedau Cymraeg. Gan nad oes angen dilyn yr un amodau bellach ers gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae angen codi pwysoliad a gwerth ceisiadau gan unigolion a chwmnïau dwyieithog lleol i gyflawni gwaith ar ran y sector cyhoeddus a Llywodraeth Ganol. Yn yr un modd, lle daw'n amlwg nad oes cwmni neu gapasiti yng Nghymru yna mae angen amlygu hynny a chynllunio i gau'r diffyg yn y dyfodol trwy greu cwmni o'r fath. Mae adroddiadau gwahanol yn sôn am ffigyrau amrywiol ond mae'n debygol bod dros 50% o holl wariant cyhoeddus Cymru trwy gaffael yn mynd i gwmnïau yn Lloegr. Rhaid atal y patrwm hwn ar frys er mwyn hybu economi Gymreig a chadw'r bunt yn lleol.'

**Ffynhonnell: Dyfodol i'r Iaith**

'Rydym yn credu bod mentrau cymdeithasol yn cynnig ffordd chwyldroadol o hyrwyddo gwerth cymdeithasol, ac y dylai'r holl gyrff cyhoeddus geisio cynyddu'n sylweddol faint o'u contractau caffael sy'n cael eu hennill gan fentrau cymdeithasol. Mewn rhai achosion, mae



mentrau cymdeithasol yn barod i ymgymryd â'r contractau hyn, a rhaid i werth cymdeithasol gael ei wreiddio mewn arferion caffael i sicrhau bod eu gwerth ychwanegol yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, mewn marchnadoedd eraill, mae angen i ni ehangu'r cyflenwad o fentrau cymdeithasol er mwyn darparu cynnyrch a gwasanaethau. ... Mae sicrhau y bydd cymorth busnes arbenigol, addysg a chyllid yn parhau i fod ar gael i fentrau cymdeithasol yn hanfodol.'

**Ffynhonnell: Ffurflen ar-lein**

## 5.5 Targedu cefnogaeth tuag at sefydliadau a busnesau Cymraeg

Nododd nifer o ymatebwyr yr angen i adeiladu ar gryfderau, gan flaenoriaethu cefnogaeth ariannol ar gyfer cwmnïau sector preifat a mudiadau cymunedol sydd yn gweithio yn y Gymraeg. Nododd rhai ymatebwyr yr angen i gefnogi mwy o siaradwyr Cymraeg i ddod yn arweinyddion busnes, yn enwedig busnesau dylanwadol o fewn eu cymunedau a rhanbarthau. Awgrymwyd bod busnesau llwyddiannus yng nghadarnleoedd yr iaith yn aml yn cael eu harwain gan bobl ddi-Gymraeg, yn enwedig o fewn y sector twristiaeth. Casglodd Menter Môn yn ei hymateb bod angen targedu cefnogaeth ariannol at fusnesau sydd yn gweithredu yn y Gymraeg yn barod.

### Cynnig 17: Targedu cefnogaeth a grantiau busnes tuag at fusnesau Cymraeg sydd eisoes yn gweithredu i'w helpu i dyfu

'Mae dadl dros gefnogi mudiadau, cyrff a busnesau sydd yn rhoi statws teilwng i'r iaith yn barod, a'u helpu nhw i ddatblygu yn ehangach ... . Mae hyn yn golygu fod y Gymraeg yn briod iaith fewnol, yn iaith cyfarfodydd staff, yn brif iaith gweithgareddau ac iaith gyntaf unrhyw ymgyrch farchnata (ayb). Mae hyn yn normaleiddio iaith, ac yn rhoi statws cyson iddi. Gall hyn olygu cefnogaeth ariannol, ond hefyd cydnabyddiaeth wrth gwobrwyo cytundebau, allanoli gwasanaethau a rhyddhau asedau i ddatblygu (e.e. tir, adeiladu).

O gymryd fod budd i'r Gymraeg o gael busnesau ym mherchnogaeth Cymry Cymraeg... mae angen adnabod ffordd o dargedu y busnesau / y bobl yma gyda cymorth ariannol. ...

Mae amodau ieithyddol wedi'i gosod ar grantiau ers 20 mlynedd a mwy, ond nid yw hyn wedi cryfhau y Gymraeg. Dydy'r amodau yma ddim yn effeithiol. Mae angen ail-edrych ac ail-gyflwyno amodau, a/neu rhoi rhyddid i'r sawl sy'n gweinyddu/arwain y grantiau i ychwanegu amodau ieithyddol.'

**Ffynhonnell: Menter Môn**

'Mae angen annog mwy o gwmnïau preifat i fabwysiadu polisiau iaith, i gymryd camau i wella gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i'r cyhoedd, ac i warchod hawliau ieithyddol eu gweithwyr. Mae dylanwadu ar y sector breifat yn anodd, a dim eglurder ar hyn o bryd lle mae grym dylanwad na chefnogaeth i'w gael. Credwn y dylai'r Llywodraeth edrych ar y gefnogaeth sydd yn cael ei gynnig yn sgil dod a chynllun Helo Blod [Lleol]/Cymraeg Byd Busnes i ben ..... Ar wahân i'r gefnogaeth cyfieithu sydd ar gael, credwn y dylid sefydlu cronfa grant, fyddai ar gael i fusnesau tuag at gostau arwyddion neu waith cyfieithu swmpus megis gwefannau.'

**Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd**

Cyfeiriodd ymateb Comisiynydd y Gymraeg at waith gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Strategaeth Arloesi i Gymru ar hyn o bryd. Mae hyn yn gysylltiedig â phwyntiau eraill mewn perthynas â datblygu economaidd ac adfywio. Pwysleisiodd y Comisiynydd yr angen i 'ystyried perthnasedd y Strategaeth Arloesi i arloesi mewn cymunedau Cymraeg.'

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y bargeinion twf yn eu cyflwyniadau. Roedd Cyngor Tref Aberystwyth yn argymhell gwneud y Gymraeg yn ganolog i Fargen Twf Canolbarth Cymru tra bod Prifysgol Aberystwyth wedi sôn am yr angen i integreiddio'r Gymraeg oddi mewn i gynlluniau datblygu rhanbarthol, yn enwedig y bargeinion twf. Roedd yr ymateb yn nodi bod

'peryl bod Bargaen Dwf Gogledd Cymru – gyda'i ffofws ar ganoli twf ar ddinasoedd Gogledd-Orllewin Lloegr – yn dibrisio anghenion datblygu economaidd ardaloedd mwy gorllewinol y rhanbarth, gyda goblygiadau negyddol ar gyfer y Gymraeg. Gellid gwneud yr un sylw ar gyfer dinas rhanbarthol Abertawe a De-Orllewin Cymru. Ai blaenoriaethau ardaloedd mwy trefol a dinesig y rhanbarth hwn sydd bwysicaf? I ba raddau mae anghenion datblygu ardaloedd mwy Cymreig – o ran eu canrannau o siaradwyr – y rhanbarth yn cael eu tanbriso.' (Prifysgol Aberystwyth)

## 5.6 Twristiaeth

Roedd sawl ymateb yn cyfeirio at draweffeithiau niweidiol 'gor-dwristiaeth' a thwristiaeth anghynaliadwy ar sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Nodwyd bod gor-dwristiaeth yn cyfrannu at newid demograffig o ganlyniad i fewnlifiad di-Gymraeg.

Cyfeiriwyd at Gynllun Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri, sydd yn ddatblygiad ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a datblygiadau ym maes twristiaeth yn cynnal ac nid yn tanseilio cynaliadwyedd ieithyddol a ffyniant cymunedau Cymraeg.

### Cynnig 18: Cefnogi perchnogaeth gymunedol ar fentrau twristiaeth mewn cymunedau Cymraeg

'Ein gweledigaeth i'r dyfodol yw: "Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri". Mae'r ddau gorff [Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri] wedi adolygu arfer-dda rhyngwladol a lleol gan hefyd ystyried diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o dwristiaeth gynaliadwy er mwyn creu egwyddorion ar gyfer ardal Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i'w dilyn yn y dyfodol.

Yn dilyn nifer o sesiynau ymgynghori gydag Aelodau Etholedig, cymunedau, y sector economi ymweld â sefydliadau eraill rydym wedi cytuno ar yr Egwyddorion Economi Ymweld Cynaliadwy canlynol:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
3. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais

Mae'r Cynllun hwn yn torri tir newydd i'r ardal ac yn ymateb yn uniongyrchol i farn ein cymunedau a dyhead ein busnesau i weithredu mewn ffordd wahanol i'r dyfodol. Ein bwriad yw y bydd y cydweithio newydd yma rhwng Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid cymunedol, busnes a chyhoeddus yn arwain at economi ymweld cynaliadwy yn

yr ardal sy'n rhoi blaenoriaeth i les a ffyniant ein cymunedau, ein hamgylchedd, ein hiaith a'n diwylliant.'

**Ffynhonnell: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

'Mae nifer o gynlluniau lleol gan Gyngor Gwynedd sydd yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau penodol mae trigolion y sir yn eu hwynebu, ac sydd yn effeithio ar gymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'r rhain yn cynnwys... Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy, fydd yn ceisio sicrhau gwell perchnogaeth gan gymunedau lleol dros y diwydiant yn y dyfodol.'

**Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd**

Ategwyd hyn gan ymatebwyr eraill a gyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd twristiaeth gynaliadwy a'r camau y dylid eu cymryd er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau negyddol gor-dwristiaeth.

### **Cynnig 19: Cefnogi twristiaeth gynaliadwy**

Cyfeiriodd Iaith Cyf at egwyddorion y dylid eu harddel er mwyn sicrhau fod yr economi ymweld yn gynaliadwy yn economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

'Y tair egwyddor sy'n tanlinellu hyn yw:

- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau amgylcheddol;
- Parchu rhinweddau cymdeithasol-diwylliannol y cymunedau croesawu
- Sicrhau mentrau economaidd sy'n hyfyw yn y tymor hir sy'n darparu buddion economaidd-cymdeithasol i bawb.

Ymhlith eraill, mae'r mentrau twristiaeth cymunedol a ddatblygwyd yn ardal Bro Ffestiniog yn cadw a lluosogi'r incwm o dwristiaeth o fewn cymunedau Cymraeg. Mae angen tyfu'r berchnogaeth gymunedol ar fentrau twristiaeth mewn cymunedau Cymraeg ar hyd Cymru.'

**Ffynhonnell: Iaith Cyf**

'Er mwyn gwrthweithio effeithiau niweidiol yr ordwristiaeth, dylid

a. Caniatáu i awdurdodau lleol gyfyngu ar niferoedd a chanrannau ail gartrefi a lletyau gwyliau tymor byr.

b. Sicrhau bod busnesau'r sector twristaidd yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy gyflogi staff dwyieithog a defnyddio gwefannau/taflenni/arwyddion dwyieithog.

c. Sicrhau bod deunyddiau marchnata busnesau'r sector yn amlygu ac yn pwysleisio diwylliant neilltuol Cymru.

ch. Cyfarwyddo awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiadau megis gwestai, lletyau gwely a brewcwast a lletyau fferm, yn hytrach na meysydd carafanau a chabanau gwyliau.

d. Annog defnyddio cynnyrch lleol a chynnyrch Cymru mewn sefydliadau twristaidd, a llafur a chontractwyr lleol pan fo angen.

dd. Sicrhau bod unrhyw geisiadau gan fentrau a sefydliadau twristaidd am gymhorthdal yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ddichonol ar y Gymraeg yn lleol; eu defnydd o'r Gymraeg; eu cyfraniad i ddelwedd Cymru; a'u budd economaidd i'r gymuned leol.

e. Sicrhau bod ceisiadau cynllunio gan fentrau a sefydliadau twristaidd yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ddichonol ar y Gymraeg yn lleol; eu defnydd o'r Gymraeg; eu cyfraniad i ddelwedd Cymru; a'u budd economaidd i'r gymuned leol.

f. Sicrhau bod cyrff hyrwyddo twristiaeth yn rhoi amlygrwydd i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn eu holl weithgarwch,

ff. Annog sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach i ddatblygu cyrsiau twristiaeth penodol, er mwyn ehangu'r gronfa o weithwyr lleol cymwys, gwybodus sydd ar gael i weithio yn y fasnach, ei datblygu a'i rheoli, gan sicrhau bod ymwelwyr yn derbyn gwybodaeth briodol am iaith, diwylliant, hanes lleol a hanes cenedlaethol.'

**Ffynhonnell: Cylch yr Iaith**

## 5.7 Isadeiledd / seilwaith o fewn cymunedau Cymraeg

Cyfeiriodd ymatebwyr at nifer o'r heriau sy'n gysylltiedig ag isadeiledd mewn cymunedau Cymraeg. Mae'r pryderon pennaf a godwyd wedi'u cofnodi isod. Tanlinellwyd pwysigrwydd sicrhau cysylltiad band eang cyflym, sydd yn allweddol ar gyfer sefydlu a chynnal busnesau mewn cymunedau Cymraeg, a hefyd yn creu cyfleoedd i weithio a dysgu o adref. Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd sicrhau mynediad at 'wasanaethau trafndiaeth cyhoeddus cyson a dibynadwy' (Menter a Busnes).

'Seilwaith: er mwyn cefnogi economi mewn ardal wledig mae'n rhaid cael trafndiaeth ffisegol gadarn. Mae'n rhaid buddsoddi mewn ffyrdd, rheilffyrdd a chludiant cyhoeddus er mwyn sicrhau cysylltiad da; hyn yn ogystal â buddsoddi mewn seilwaith digidol i gynorthwyo mentrau a mynediad defnyddwyr at wasanaethau. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau bod cysylltiad band-eang cyflym ar draws y Sir i gefnogi busnesau a phobl i allu gweithio o adref yn effeithiol.'

**Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion**

'[Dylid] sicrhau fod gwasanaeth band eang o'r radd flaenaf ym mhob cymuned a fydd yn galluogi pobl o bob oedran i weithio a byw bywyd llawn ac felly i aros yn eu cymuned lleol.'

**Ffynhonnell: UCAC**

## 5.8 Yr economi sylfaenol

Yr economi sylfaenol yw'r rhan o'r economi sy'n creu ac yn dosbarthu nwyddau a gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt bob dydd, fel iechyd a gofal, bwyd, tai ac ynni. Cododd rhai ymatebwyr bwyntiau ynghylch sut y gellid caffael nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd sy'n cefnogi'r economi sylfaenol a chefnogi cymunedau Cymraeg. Roedd rhai ymatebwyr yn argymhell newid agwedd o ran sut mae'r economi'n cael ei hystyried a'i chefnogi, a chanolbwyntio mwy ar sicrhau cefnogaeth i'r economi sylfaenol.

## Cynnig 20: Camau i gefnogi'r economi sylfaenol

'Credwn fod mwy y gellir y Llywodraeth ei wneud i fod yn helpu i adfywio a datblygu ein cymunedau gwledig ag ymylol. Er fod gwaith da yn digwydd ar lefel strategol mewn sectorau "gwerth uchel" drwy law y "Growth Deal" (a drwy hynny waith Uchelgais Gogledd Cymru); pryderir fod y ffocws hyn yn rhy gyfyng yn ofodol (coridorau A55 a'r M4), ag ar draul yr economi sylfaenol (megis y sector adeiladu, gofal ayyb) sydd mor greiddiol o ran cynnal swyddi o fewn ein cymunedau Cymreig.

Mae angen ymyrraeth mwy eang a dyfnach o fewn y cymunedau gwledig ledled y wlad, gyda strategaeth economi wledig glir i gyflwyno'r weledigaeth ehangach. Mae cynlluniau megis Canolfan Dadgarboneiddio Adra yn enghraifft dda o ymyrraeth sydd nid yn unig yn ymateb yn uniongyrchol i angen strategol o gwrdd â thargeddi Net Sero, ond yr un mor bwysig yn anuniongyrchol mae'n mynd i'r afael â materion megis economi sylfaenol a gwarchodaeth yr iaith.'

### **Ffynhonnell: Adra**

'[Mae angen] mwy o bwyslais ar gefnogi'r economi, creu swyddi a creu cyfleoedd cyflogaeth cymunedol mewn cymunedau Cymraeg.

Gyda chymunedau gwledig dan fygythiad, gellir rhagweld allfudiad o siaradwyr Cymraeg ifanc o'r broydd hyn i ganolfannau gwaith trefol a dinesig. Mae sicrhau gwaith yn lleol yn rhan allweddol o'r ateb gyda phwyslais ar gefnogi busnesau bach a micro, mentrau cymunedol, yr economi sylfaenol a'r economi gylchol. Dros y blynyddoedd diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygiad a ffyniant yr economi sylfaenol yng Nghymru. Gyda chefnogaeth y gronfa Economi Sylfaenol, ffurfiolwyd cydweithredu DOLAN – sef cydweithredu rhwng Cwmni Bro Ffestiniog, Siop Griffiths a Partneriaeth Ogwen yn 2020 gan esgor ar berthynas adeiladol, creadigol a gweithredol rhwng tair menter gymdeithasol yn y broydd chwarelyddol. Mae'n prosiectau economaidd hefyd yn edrych ar gryfhau'r economi leol, nid trwy fewnfuddsoddiad gan gwmnïau trawswladol ond trwy atgyfnerthu a meithrin busnesau bach lleol.

Mae profiad Partneriaeth Ogwen o weithredu Cadwyn Ogwen yn enghraifft o sut all mentrau cymdeithasol gefnogi gweithgarwch sector preifat (micro a bach) a mae'n argyhoeddiad ieithyddol hefyd wedi golygu ein bod yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau preifat fyddai wedi bod yn nerfus o wneud hynny heb ein cymorth.'

### **Ffynhonnell: Partneriaeth Ogwen**

## 6. Maes polisi datblygu cymunedol

---

Un o brif nodweddion yr ymatebion oedd y pwyslais ar ddatblygu cymunedol, a'r angen i hyrwyddo gweithgarwch o'r gwaelod i fyny, yn hytrach nag o'r brig i lawr. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn gweld datblygu cymunedol yn fodd i gryfhau'r Gymraeg ac roeddynt yn awyddus i hyrwyddo, cryfhau ac ymestyn y sector. Roedd sawl un yn dadlau y byddai 'cymunedoli' yn gallu cryfhau cymunedau Cymraeg, ac yn ddull mewn gwirionedd o hyrwyddo cynllunio ieithyddol ar lefel feicro.

Yn y cyd-destun hwn, gan ategu pwynt a godwyd ym mhennod 2 o'r adroddiad hwn, pwysleiswyd yr angen i fynd i'r afael ag anghenion unigryw ardaloedd unigol, gan gydnabod nad oes un ateb a fyddai'n gweithio i bawb o ran hyrwyddo datblygiad cymunedol. Yn ail, nodwyd bod angen cefnogi a chryfhau'r gwaith da sydd eisoes yn mynd rhagddo o fewn nifer o grwpiau a sefydliadau cymunedol. Gallai darparu adnoddau ychwanegol helpu'r grwpiau hyn i ddatblygu eu mentrau a chynyddu eu gallu i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau mewn ffyrdd cynaliadwy. Yn gysylltiedig â hyn, awgrymodd yr ymatebwyr yr angen am nawdd a grantiau hirdymor i grwpiau cymunedol sicrhau eu cynaliadwyedd. Yn olaf, cyfeiriodd ymatebwyr at y diffyg cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc mewn nifer o ardaloedd gwledig, a'r angen i roi sylw i hynny. Mae gweddill yr adran yn gosod allan y prif gynigion o ran:

- Cynnig gwasanaethau a chefnogaeth i grwpiau a mentrau cymunedol;
- Cyfleoedd cymdeithasu;
- Asedau cymunedol.

### 6.1 Gwasanaethau a chefnogaeth i grwpiau a mentrau cymunedol

---

Rhannodd nifer o ymatebwyr eu hawgrymiadau ar ddatblygu cymunedol a'r teimlad cyffredinol yn eu plith oedd bod angen canolbwyntio ar gefnogi a chryfhau'r gwaith sydd ar y gweill eisoes gan grwpiau a sefydliadau cymunedol, a darparu adnoddau ychwanegol iddynt ddatblygu eu mentrau a chynyddu eu capasiti. Cafwyd enghreifftiau o gyrff sydd eisoes yn cyflawni gwaith o'r fath megis Mentrau Iaith, mentrau cymunedol, mudiadau gwirfoddol, cynghorau tref a chymuned ac adrannau o fewn awdurdodau lleol. Roedd teimlad cryf bod angen cefnogi a chryfhau'r gwaith ac i 'gefnogi mentrau cymunedol sy'n hyrwyddo defnydd o'r iaith mewn ffordd naturiol (ymateb unigolyn).' Roedd yna gydnabyddiaeth bod grantiau a chefnogaeth ariannol ar gael, ac yn helpu, ond byddai cael cyllid mwy hirdymor yn well, gan fod llawer o'r grantiau sydd ar gael yn aml yn rhai tymor byr.

Roedd ymatebwyr hefyd yn dadlau fod modelau 'integredig a chyfannol o ddatblygu cymunedol' mewn rhannau o Wynedd (yn enwedig yn y cymunedau llechi), a hefyd ym Môn a Sir Benfro a lleydd eraill, wedi bod yn llwyddiannus, a bod angen i Lywodraeth Cymru 'ddyfeisio a chefnogi rhaglen i ledaenu'r model' ar draws Cymru (Cwmni Bro Ffestiniog).

O ran camau ymarferol, esboniwyd y byddai darparu cymorth i grwpiau a sefydliadau i'w galluogi i weithredu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar lawr gwlad hefyd yn cyfrannu at sicrhau bod gan y Gymraeg statws ar lefel gymunedol. Gellid cyflawni hyn drwy bethau megis defnyddio arwyddion dwyieithog, cynnig cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cymunedol a defnyddio Cymraeg mewn cyfryngau cymdeithasol a phosteri digwyddiadau.

Roedd hefyd cryn dipyn o gyfeiriadau yn yr ymatebion at yr angen i amddiffyn hawl cynghorau tref a chymuned – fel yr haen fwyaf lleol a chymunedol o ddemocratiaeth – i weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y cyswllt hwnnw hefyd, dylid nodi bod nifer o ymatebion yn cyfeirio at yr angen i feithrin cyfryngau cymunedol yn y Gymraeg, trwy barhau i gefnogi papurau bro, er enghraifft, neu wrth sefydlu cronfa i hyrwyddo llyfrau lleol eu natur.



## Cynnig 21: Mwy o gefnogaeth i grwpiau cymunedol

### Cefnogaeth i fentrau lleol a nawdd hirdymor

'I barhau a datblygu gwaith o'r fath, nid cynyddu capasiti/adnoddau/nawdd yn unig sydd angen ei wneud – ond yn ogystal, gwella a hwyluso'r drefn bresennol o sicrhau y nawdd hwn. .... O'n profiad ni, nid yw'r system grantiau bresennol yn caniatáu ar gyfer cynllunio hirdymor – rhywbeth sy'n bwysig o safbwynt yr iaith. Mae rheidrwydd i Fentrau Iaith ymgeisio am gyllideb craidd yn flynyddol, sy'n a) rhwystro cynllunio ieithyddol hirdymor, b) lleihau y siawns o dderbyn nawdd ychwanegol (match) drwy ffynonellau eraill, a c) achosi pryder ymysg staff ynglŷn â hyd a lled eu cytundebau, sydd yn y pendraw yn ychwanegu at y rwystr o ddenu staff safonol, ymrwymedig.'

#### **Ffynhonnell: Menter Môn**

'Cryfhau cydlynw a chydweithio ar draws y darpariaethau sydd eisoes yn bodoli, megis Yr Urdd, Mudiad Ffermwyr Ifanc, Cylch Meithrin, Grwpiau Gwawr, Merched y Wawr, Sefydliad y Merched, ysgolion, addysg pellach a mentrau iaith. Mae gormod o weithio a gweithredu mewn seilios yn digwydd ar hyn o bryd. Gwella ariannu craidd ar gyfer y mudiadau hyn, ag am gyfnod sydd yn ymestyn bellach na blwyddyn ar y tro.'

#### **Ffynhonnell: Grŵp Cynefin**

'Prin yw'r cyllid craidd neilltuol sydd gan awdurdodau lleol i'w wario ar y Gymraeg. .... Er i'w groesawu yn absenoldeb cyllid craidd, nid yw'r gyfundrefn bresennol o ddyrannu arian grant bob amser yn caniatáu ar gyfer buddsoddi mewn cynlluniau hirdymor i gryfhau'r iaith.'

#### **Ffynhonnell: Cyngor Sir Ynys Môn**

'Mae angen i'r Gymraeg gael ei chysylltu'n fwy â mentrau cymdeithasol, ac un ffordd o sicrhau hyn fyddai galluogi'r mentrau iaith i gyflogi swyddogion penodol ar gyfer datblygu mentrau o'r fath yn eu hardaloedd.'

#### **Ffynhonnell: Mentrau Iaith Cymru**

### Cynnig cefnogaeth cyfieithu

'Mae'n gwbl hanfodol felly bod Llywodraeth Cymru a'i bartneriaid yn parhau i gefnogi mudiadau a sefydliadau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar lawr gwlad. ...Mae angen cymorth er mwyn caniatáu i grwpiau a chymdeithasau cymunedol hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn gwbl naturiol mewn digwyddiadau cymunedol wyneb yn wyneb a rhithiol er mwyn cynnal presenoldeb y Gymraeg yn ein cymunedau. Mae angen cydweithio â chyfieithwyr ar y pryd proffesiynol er mwyn cynnig gwasanaeth dwyieithog fforddiadwy.'

#### **Ffynhonnell: Iaith Cyf**

'Gellir sicrhau bod y Gymraeg yn gymal mewn unrhyw grantiau cymunedol ac ati a bod unrhyw grant yn cynnwys elfen ar gyfer darpariaeth cyfieithu i'r Saesneg.'

#### **Ffynhonnell: Unigolyn**

'Dylid mynd ati i sicrhau bod Un Llais Cymru yn cael eu cynnwys yn y Cylch Gorchwyl Safonau'r Gymraeg, hyn er mwyn helpu Cyngorau Tref a Chymuned i warchod a/neu i



wneud defnydd o'r Gymraeg. Er mwyn bod yn gynhwysol mae mwy a mwy o Gyngorau Tref a Chymuned o fewn y Sir, yn gorfod newid iaith oherwydd y gost sydd ynghlwm â darparu cyfieithwyr ar y pryd, a chyfieithu'r holl ddogfennaeth. Dylid ystyried cynnig cyrsiau Cymraeg dwys rhad ac am ddim i Gyngorwyr nad ydynt yn medru'r Gymraeg, fel nad yw'r iaith yn cael ei cholli yn ein cymunedau.'

**Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion**

## 6.2 Darparu cyfleoedd cymdeithasu

Cyfeiriodd ymatebwyr at ddiffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac yn gymdeithasol. Dywedwyd bod y pandemig wedi cyfrannu at y broblem hon, o ganlyniad i ostyngiad yn y cyswllt wyneb-yn-wyneb ar lefel gymunedol gan leihau cyfleoedd i ddefnyddio ac ymarfer yr iaith. Roedd ymatebwyr yn credu bod angen mwy o gyfleoedd i gymdeithasu mewn ardaloedd gwledig, a nifer o'r farn y byddai hyn yn helpu o ran cadw pobl ifanc yn yr ardaloedd hynny. Esboniwyd bod yna draddodiad cryf o sefydliadau sy'n trefnu digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol (ffermwyr ifanc, tafarndai cymunedol, Yr Urdd ac ati), ond nodwyd hefyd bod angen cefnogi'r grwpiau hyn i wneud mwy er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at gymunedau ar-lein. Er na chafodd cynigion penodol eu gwneud am gefnogi cymunedau ar-lein, roedd yna alwadau am sicrhau bod yna gefnogaeth a modd i gyfathrebu'n ddidrafferth ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg, boed i gymdeithasu neu at ddibenion gwaith.

### Cynnig 22: Creu cyfleoedd cymdeithasu

#### Hybu cyfleoedd cymdeithasu a gwyliau

'...gwneud yn siŵr bod ganddynt [bobl ifanc] fynediad i amrediad o brofiadau a gweithgareddau, yn ddiwylliannol a chymdeithasol, fel sydd ar gael mewn ardaloedd mwy trefol a dinesig. Yn hynny o beth, mae arfogi grwpiau cymunedol, a sicrhau bod gan fudiadau fel yr Urdd a'r Mentrau yr adnoddau digonol i allu cynnig cyfleoedd eang yn allweddol. Mae prinder cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc yn broblem benodol yn nifer o gymunedau mwy gwledig Gwynedd, er enghraifft, a hynny am fod adnoddau partneriaid fel yr Urdd a'r fenter iaith yn brin, a bod dim posibiliddd gyrraedd pob man lle mae angen cefnogaeth, ac hefyd am fod y Cyngor wedi wynebu toriadau cyllidebol anferthol dros y blynyddoedd.'

**Ffynhonnell: Cyngor Sir Gwynedd**

'Creu trefn o roi nawdd a hyrwyddo gwyliau mewn ardaloedd Cymreig, tebyg i Tafwyl ond ar raddfa lai, fel bod y bwrlwm Cymreig yn amlwg i bob cenhedlaeth ac mae'n ddull effeithiol o dynnu'r cenedlaethau at ei gilydd.'

**Ffynhonnell: Cyngor Tref y Bala**

'Mae cymunedau Cymreig yn wych am ddatblygu'n gymunedol ee CFFI, Merched y Wawr, mentrau cymunedol, mae angen fwy o gymorth ar wirfoddolwyr i barhau i gynnal y cymdeithasau hyn.'

**Ffynhonnell: Unigolyn**

'Yr her sy'n ein hwynebu yw sut mae adfywio ac atgyfnerthu'r cymdeithasau gweithgaredd hyn. Awgrymwn: i. Annog cymryd rhan eto, e.e. hyrwyddo map digwyddiadau fel a geir yng Ngwynedd. ii. Cymraeg i Oedolion i roi pwyslais newydd ar gynnal digwyddiadau cymunedol iii. Ysgolion i fod yn ganolfannau digwyddiadau a chymdeithasu beunyddiol i fwrlwm o weithgaredd Cymraeg iv. Rhaglenni chwaraeon a diwylliant poblogaidd i bobl ifanc trwy Wasanaethau Ieuenctid, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, clybiau chwaraeon a diddordeb, ayyb.'

**Ffynhonnell: Dyfodol i'r Iaith**

#### Rôl clybiau chwaraeon

Tynnodd nifer o gyfranogwyr sylw at rôl clybiau chwaraeon megis y clwb pêl-droed neu rygbi lleol, gan ddweud bod angen eu cefnogi i gynnal eu darpariaeth yn y Gymraeg, neu eu cynorthwyo i ddarparu mwy yn Gymraeg.

'Mae angen i'r Mentrau hefyd weithio'n agos i gefnogi'r clybiau chwaraeon sy'n "ofodau uniaith" ar hyn o bryd. Mae cynlluniau "breathing spaces" sy'n cael eu peilota gyda clybiau chwaraeon yng Ngwlad y Basg yn fodel diddorol y dylid ystyried ei weithredu yng Nghymru. Mae manteision deublyg i hyn – y buddion i'r unigolion ond hefyd i gynnal pendantrwydd ieithyddol y clybiau chwaraeon.'

**Ffynhonnell: Partneriaeth Ogwen**

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cysylltu eu hawgrymiadau am gyfleoedd i gymdeithasu ag argymhellion i sicrhau bod yna gyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg i siaradwyr newydd a oedd eisiau ymarfer eu Cymraeg. Roedd galwadau am fwy o wersi Cymraeg am ddim. Yn ogystal roedd galwadau am wersi neu gyfleoedd i'r rhai a oedd eisiau gwella eu hyder a'u sgiliau.

### 6.3 Asedau Cymunedol

Roedd asedau cymunedol yn thema mewn sawl ymateb, hynny yw yr adnoddau, y cyfleusterau, a'r seilwaith sy'n eiddo i gymunedau lleol, a sut gellid dod â mwy o asedau o dan reolaeth a pherchnogaeth y gymuned. Mae cyswllt amlwg yma gyda pholisiau datblygu economaidd, ac fel esboniodd Cymdeithas yr Iaith, mae 'traddodiad hir o gymunedau Cymreig yn prynu, datblygu a rheoli asedau lleol er mwyn darparu gwasanaethau hanfodol megis tafarndai, siopau cymunedol a phrosiectau ynni adnewyddol', ac roedd nifer o'r ymatebwyr yn awyddus i adeiladu ar y traddodiad hwn.

#### **Cynnig 23: Asedau Cymunedol**

##### Cefnogaeth i'r egwyddor o gymunedoli asedau

'Mae'n gynyddol bwysig i gymunedau allu perchnogi asedau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y cymunedau hyn a'u hiaith.'

**Ffynhonnell: Mentrau Iaith Cymru**

'Roedd adroddiad y Pwyllgor ar asedau cymunedol yn cynnwys 16 o argymhellion, a chafodd pob un ohonynt heblaw un eu derbyn yn llawn, neu mewn egwyddor, gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn mewn egwyddor argymhelliad i

sefydlu comisiwn, fel y cynigiodd Cwmpas, i sbarduno syniadau arloesol ynghylch trosglwyddo tir ac asedau i'r gymuned. Mae rhaid bydd effaith ar y Gymraeg wrth wraidd gwaith y comisiwn hwn.'

**Ffynhonnell: Ffurflen ar-lein**

Arian ar gyfer medru prynu asedau

'Angen mwy o gefnogaeth ar gymunedau i reoli eiddo a datblygu prosiectau trosglwyddo asedau cymunedol. Mae hefyd yn holl bwysig cefnogi prosiectau sy'n creu cymuned iach, bywiog a chynaliadwy.'

'Angen newidiadau deddfwriaethol, i rymuso cymunedau a rhoi cyfle cyfartal iddynt wrth gystadlu yn erbyn buddsoddwyr preifat i brynu asedau cymunedol o ddi-ddordeb. Bydd hefyd angen i Lywodraeth Cymru gyfrannu ymyrraeth ariannol sylweddol er mwyn i fentrau cymunedol lwyddo, drwy grantiau datblygu/ neu fenthyciadau hir dymor ar gyfer grwpiau cymunedol.'

**Ffynhonnell: Parc Cenedlaethol Eryri**

'Er hynny, mae angen buddsoddiad er mwyn galluogi mentrau cymunedol i arfer eu hawliau i berchenogi tai, tir ac asedau cymunedol. .... Dylai Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru gynnig cymorth ariannol i fentrau cymunedol Cymraeg ar ffurf grantiau, buddsoddi ecwiti a benthyciadau â llog isel.'

**Ffynhonnell: Cymdeithas yr Iaith**

'O'n profiadau ni fel cymdeithas dai hefo trac-record llwyddiannus, mae [angen] buddsoddi mewn timau o swyddogion datblygu cymunedol i gefnogi pwyllgorau o wirfoddolwyr cymunedol, i afael yn eu llaw, rhoi cyfeiriad a chymorth iddynt pan mae angen.'

**Ffynhonnell: Grŵp Cynefin**

'Mae cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol yn chwarae rhan bwysig ym mywyd diwylliannol, cymunedol ac economaidd Cymru. Gwelir enghreifftiau ledled Cymru mewn amryw o feysydd (Canolfannau celfyddydol, adfywio tafarndai lleol, a siopau pentref ymysg eraill) o sut y mae'r sefydliadau hyn yn cynnig gwasanaethau gwerthfawr i'w cymuned. Rhaid annog cymunedau i weld datblygiad y modelau hyn o ddatblygu a darparu amryw o weithgareddau yn ffordd werthfawr o gefnogi cynladwyedd ein cymunedau Cymraeg.'

**Ffynhonnell: Mudiad Meithrin**

'Nodi cyfleoedd i edrych ar ddarparu tai cydweithredol mewn eiddo gwag.'

**Ffynhonnell: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

## 7. Maes cynllunio gwlad a thref

---

Mae'r bennod hon yn cyflwyno cynigion mewn perthynas â maes cynllunio gwlad a thref.

Cafwyd sawl awgrym amrywiol ar gyfer diwygio polisi cynllunio, gan gynnwys gorfod ystyried effaith ceisiadau cynllunio ar yr iaith Gymraeg ac ar gynaliadwyedd cymunedau a mwy o graffu ar asesiadau effaith ieithyddol sy'n cael eu cynnal fel rhan o geisiadau cynllunio; sicrhau rhagor o ymchwil fel bod gwell dealltwriaeth o'r angen am dai; rhoi arweiniad i awdurdodau cynllunio ar sut a phryd y gellid gwyro oddi wrth bolisiau cenedlaethol er mwyn diwallu anghenion penodol lleol, a llacio rhai rheoliadau cynllunio i ganiatáu datblygiadau a chartrefi lle bo angen.

### 7.1 Cefndir a chyd-destun cynllunio gwlad a thref

---

Mae [Polisi Cynllunio Cymru](#) (PCC) yn ddogfen anstatudol sy'n amlinellu polisiau Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir, tra bod y Ddeddf Cynllunio'n darparu fframwaith cyfreithiol. Fe'i hategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), gan gynnwys [TAN 20: cynllunio a'r Gymraeg](#). Mae PCC yn darparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi cynlluniau datblygu, ac yn gosod camau y dylai awdurdodau cynllunio eu dilyn o ran ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg ond heb fod yn ofynion statudol. Mae polisiau cynllunio lleol wedi'u nodi yn y Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer ardal pob awdurdod cynllunio.

[Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040](#) yw'r fframwaith Datblygu Cenedlaethol, sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer gwaith datblygu yng Nghymru tan 2040. Mae Cymru'r Dyfodol yn gynllun gofodol, sy'n golygu ei fod yn pennu cyfeiriad ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith a gwaith datblygu ac mae'n gosod uchelgais bod yr iaith yn cael ei hystyried o fewn strategaeth ofodol pob cynllun datblygu.

Ymhellach i hyn, tynnodd sawl ymateb sylw at [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) a'i nod ar gyfer 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' ac ailddiffinio datblygu cynaliadwy i gynnwys diwylliant fel pedwerydd llinyn, ochr yn ochr â'r amgylchedd, llesiant cymdeithasol ac economi. Cyfeiriwyd hefyd at [Siarter Creu Lleoedd Cymru](#) a'r 'ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleoedd da' gan gynnwys hyrwyddo'r egwyddor o hunaniaeth fel ystyriaeth graidd wrth gynllunio.

Roedd nifer o'r ymatebion—yn enwedig y rhai a dderbyniwyd gan awdurdodau cynllunio—yn cyfeirio at y dogfennau hyn ond yn aml yn gwneud y pwynt bod angen iddynt fynd ymhellach ac i ddarparu mwy o eglurder ac arweiniad. Ehangir ar hyn yng ngweddill yr adran hon.

### 7.2 Cais am ganllaw cliriach a gwell data a thystiolaeth

---

Bu cynllunio a'r iaith Gymraeg yn destun ymchwil a phapurau blaenorol. Cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg at ei arolwg o bolisiau cynllunio awdurdodau cynllunio yn 2019, [Cynllunio a'r Gymraeg: arolwg o weithdrefnau awdurdodau cynllunio Cymru](#). Daethpwyd i dri phrif gasgliad yn dilyn yr arolwg sef bod 'diffyg cysondeb ym mholisiau cynllunio'r awdurdodau yng nghyd-destun y Gymraeg'; bod 'galw gan awdurdodau cynllunio am ganllawiau clir, cenedlaethol ar asesu effaith ar iaith a diffinio ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol' a chodi cwestiwn ynghylch arbenigedd ieithyddol yn yr Arolygiaeth Gynllunio. Roedd y ddau bwynt cyntaf yn themâu clir yn yr ymatebion i'r alwad hon am dystiolaeth. Cyfeiriodd RTPI Cymru

hefyd at ymchwil flaenorol, yn benodol at bapur [RTPI | Creu Lleoedd...lle mae'r Gymraeg yn ffynnu](#) sy'n rhoi trosolwg o hybu a chefnogi defnydd o'r Gymraeg wrth gynllunio gwlad a thref. ac enghreifftiau o arfer da o ran cynllunio dwyieithog, a'r manteision o hybu'r Gymraeg wrth gynllunio.

Yn ogystal â gofyn am arweiniad cliriach a mwy o sylw i'r Gymraeg mewn polisi cynllunio, roedd yna deimlad ymhlith nifer o'r ymatebwyr bod angen newid agwedd a chwilio am sut i wella yn hytrach na diogelu'n unig o ran y Gymraeg. Yn yr ystyr hwn, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ddysgu gwersi o hyrwyddo bioamrywiaeth, a meddai RTPI Cymru, 'we recommend consideration of an emphasis on "enhancement" in addition to "mitigation". This has been addressed for biodiversity in Wales.' Roedd yna alw hefyd am fwy o ddefnydd o arbenigwyr cynllunio ieithyddol yn y maes cynllunio gwlad a thref, neu am gorff i gynghori awdurdodau cynllunio yn y maes.

## Cynnig 24: Arweiniad pendant ar bolisi cynllunio

### Canllaw cliriach yn TAN 20

'Er iddynt gael eu cyhoeddi ar ôl Cymraeg 2050, ac er iddynt annog cefnogaeth ar gyfer yr iaith - dim ond ychydig o fanylion penodol sydd gan TAN 20 (2017) a Pholisi Cynllunio Cymru rhifyn 10 (2018) ar sut y gallai neu a ddylai Creu Lleoedd chwarae rhan mewn galluogi'r Gymraeg ffynnu fel iaith gymdeithasol.'

#### **Ffynhonnell: RTPI Cymru**

'Byddai o fudd mawr petai'r Comisiwn yn edrych i gydweithio gydag Adran Cynllunio Polisi'r Llywodraeth i gryfhau Polisi Cynllunio Cymru, TAN 20 a Llawlyfr Cynlluniau Datblygu gan ddarparu arweiniad clir ar gyfer holl Awdurdodau Cynllunio Cymru. Bydd yn gyfle i:

1. gael arweiniad cliriach mewn dogfennau polisi cenedlaethol o ran cynaliadwyedd iaith a'r berthynas gyda'r targedau cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg 2050.
2. gael arweiniad cliriach ar beth olygir o ran ardaloedd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol.
3. i roi arweiniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol i adnabod y posibilrwydd o opsiynau strategol twf ac sy'n cael eu harwain gan ffyniant y Gymraeg.
4. Roi arweiniad cliriach i awdurdodau lleol o sut i osod amcan priodol o ran Cynaliadwyedd y Gymraeg gan ddatblygu methodoleg gyson i asesu effaith debygol Strategaethau a pholisïau Cynlluniau Datblygu Lleol ar yr iaith Gymraeg
5. Ddatblygu methodoleg gyson i asesu ceisiadau Cynllunio.'

#### **Ffynhonnell: Parc Cenedlaethol Eryri**

'Bydd yn bwysig gwneud cyswllt cryf rhwng cynllunio ieithyddol a chynllunio defnydd tir gan arwain at arweiniad cliriach ym Mholisi Cynllunio Cymru a TAN 20. Bydd yn gyfle i Lywodraeth Cymru osod disgwyliad o ran cyfraniad pob awdurdod cynllunio lleol tuag at y miliwn o siaradwyr Cymraeg.'

#### **Ffynhonnell: Parc Cenedlaethol Eryri**

'Further clarity would be welcomed, setting out the role of planning and planners in strengthening placemaking to support the Welsh language through development planning and development management. A specific example of this is the need for greater clarity and guidance on TAN 20 (section 2.7 Defined Areas) of what it means for Local Development Plans to identify an area of sensitivity and/or significance. This is something which the Commissioner could address, or through commissioning further research.'

#### **Ffynhonnell: RTPI Cymru**

### Proses ffurfiol ymgynghori a helpu'r gymuned i fedru cyfrannu

'Angen adnoddau ychwanegol ar awdurdodau cynllunio hefyd i sicrhau'r gefnogaeth i gymunedau i lunio i a chydweithio i baratoi cynlluniau cynefin sydd wedi ei selio ar anghenion lleol. Diffyg adnoddau ar hyn o bryd yn y maes yma.'

**Ffynhonnell: Parc Cenedlaethol Eryri**

### Canllaw ar arwyddion ac enwau:

'Nifer o'r awdurdodau cynllunio yn gofyn am fwy o gryfder o ran polisiâu arwyddion Cymraeg gan y gymuned, fodd bynnag mae'r TAN ond yn caniatáu i Gynghorau Datblygu Lleol "hyrwyddo darparu arwyddion dwyieithog", mae angen cryfhau hyn.'

**Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion**

'Angen polisiâu cryfach i'w gneud yn ofynnol i arwyddion fod yn unai Gymraeg neu ddwyieithog. Hyn i atal arwyddion uniaith Saesneg. Ar y funud dim ond annog hyn allwn ni wneud fel awdurdod, felly angen gallu mynnu/gorfodi arwyddion dwyieithog o leiaf.'

**Ffynhonnell: Parc Cenedlaethol Eryri**

Yn ogystal â chanllawiau cliriach, roedd llawer o'r ymatebwyr eisiau gwell data a thystiolaeth er mwyn llywio penderfyniadau cynllunio. Ar lefel genedlaethol, roedd galw am fwy o drafod am sut gallai cynllunio a datblygiadau gefnogi cymunedau Cymraeg, ac ar lefel fwy lleol dylai'r gymuned hefyd gael ei chefnogi i holi, a deall, sut mae cynllunio yn effeithio arni.

## **Cynnig 25: Mwy o ymchwil er mwyn cael gwell data a thystiolaeth cyson ar lefel genedlaethol**

### Casglu a rhannu tystiolaeth a chysondeb tystiolaeth

'Bydd y gwaith dadansoddiad sosio-ieithyddol o sefyllfa'r iaith mewn cymunedau ar draws Cymru yn ddefnyddiol iawn fel sail tystiolaeth i Awdurdodau Cynllunio a croesawir y bydd y comisiwn yn argymhell ymyraethau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Bydd yn fodd o sicrhau cysondeb mewn sail tystiolaeth ac argymhell ymyraethau polisi er budd yr iaith Gymraeg ar draws Awdurdodau Cynllunio Cymru.'

**Ffynhonnell: Parc Cenedlaethol Eryri**

'Mae cywain data meintiol a dibynadwy am ddefnydd cymunedol o'r iaith i'n caniatáu ni i weithredu ar sylfaen dystiolaeth gadarn yn her. Byddem yn croesawu ymdrech genedlaethol i ddwyn ynghyd y gwahanol ffynonellau data er mwyn cynorthwyo gwneuthurwyr penderfyniadau fesur ac asesu effaith eu cynigion ar y Gymraeg.'

**Ffynhonnell: Cyngor Sir Ynys Môn**

'Mae'n rhaid defnyddio gwybodaeth a data cyfamserol, yn ogystal â data am flynyddoedd diweddar, er mwyn sicrhau y gellir cynllunio er hyfywedd cymunedau a'r iaith i'r dyfodol. Ategwn alwad yr Athro Mark Tewdwr-Jones am ddefnyddio data "byw", cyfoes mewn ffordd ystyrlon yn y system gynllunio.... er mwyn sicrhau bod modd ymateb yn gyflym i newidiadau mewn cymunedau. Rydym yn cydnabod bod angen llawer o adnoddau i gyflawni hyn ond credwn bod rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi i wneud hynny er mwyn bod yn barod i ymateb i newidiadau yn barhaus.'

**Ffynhonnell: Comisiynydd y Gymraeg**



## 8. Maes polisi tai

Mae tipyn o orgyffwrdd rhwng y sylwadau ar gynllunio gwlad a thref a pholisi tai ond fe gyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr yn eu tystiolaeth at faes polisi tai yn benodol. Gan amlaf roedd y sylwadau yn gyffredinol, yn mynegi barn ar broblemau fforddiadwyedd a niferoedd ail gartrefi ond heb gynnig cynigion cadarn, er codwyd sawl pwynt a rhai cynigion o dan y penawdau canlynol:

- Yr angen i roi ystyriaeth i dai wrth gynllunio ymyriadau strategol
- Sicrhau rhagor o dai fforddiadwy i bobl leol
- Camau i liniaru effaith ail gartrefi.

### 8.1 Sicrhau llais cryf i'r sector tai wrth gynllunio ymyriadau strategol

Gwnaed y pwynt gan nifer o ymatebwyr bod angen i'r sector tai gael ei ystyried ochr yn ochr â meysydd ehangach wrth drafod adfywio cymunedau a chynlluniau datblygu eraill. Nodwyd bod tai, ac argaeledd tai fforddiadwy, yn torri ar draws yr holl feysydd polisi sy'n berthnasol i ddyfodol cymunedau Cymraeg.

'Mae gwaith da eisoes yn digwydd yng Ngogledd Cymru ar agweddau economaidd (h.y. ymateb i fethiant amlwg yn y farchnad) trwy bartneriaeth strategol Uchelgais Gogledd Cymru; ac mae angen parhau i gyflwyno'r achos i'r Sector Tai i gael statws cyfartal yn y maes strategol hwn; cael llais cryf mewn unrhyw gynllunio ymyriadau Cenedlaethol a rhanbarthol, gan gefnogi "Adfywio a Arweinir gan Dai" fel catalydd gwirioneddol ar gyfer datblygu economaidd a sgil-ffeithiau cymdeithasol-ddiwylliannol ehangach.'

**Ffynhonnell: Adra**

'The social housing sector must be represented in all key strategic spaces that are seeking to reinvigorate rural Welsh-speaking communities. We understand that securing the sustainability of communities cannot be achieved through housing policy alone. However, good housing is a critical factor in helping communities to thrive.'

**Ffynhonnell: Community Housing Cymru**

### 8.2 Sicrhau rhagor o dai fforddiadwy i bobl leol

Er bod rhai cymunedau yn cael eu heffeithio'n fwy nag eraill, roedd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr bryderon am ddiffyg tai fforddiadwy yn eu cymunedau. Roedd sylwadau Cyngor Sir Ceredigion yn nodweddiadol, wrth iddynt sôn bod 'angen datrys yr argyfwng tai, gan sicrhau bod strategaethau yn eu lle ar gyfer sicrhau bod pobl ifanc yn medru fforddio prynu neu rhentu tai yn lleol.'

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr a oedd yn gweithio'n uniongyrchol yn y maes tai at yr heriau y mae pobl leol yn gallu eu hwynebu wrth ymgeisio am forgais. Os yw datblygwr yn cytuno i ddarparu cartrefi fforddiadwy fel rhan o'i gais cynllunio, gellir ffurfioli hynny drwy gytundeb adran 106, sef cytundeb â'r nod o liniaru effaith datblygiadau newydd ar gymunedau. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y ffaith y gall gofynion cytundebau adran 106 arwain at sefyllfa ble gall unigolion wynebu anawsterau i gael morgais.



Fodd bynnag gall cytundebau adran 106, a'r cyfraniadau a ddaw yn eu sgil, gael effaith gadarnhaol ar gymunedau. Cyfeiriodd ymateb Cyngor Sir Ynys Môn at asesiad o effaith datblygiad ar y Gymraeg a wnaeth arwain at sicrhau nifer o ymrwymadau i warchod a chryfhau'r Gymraeg trwy gytundeb adran 106, gan gynnwys ymrwymiad gan y datblygwr y byddai pob gohebiaeth a chyfarfod cymunedol yn ddwyieithog. Ymysg yr ymrwymadau eraill, cafwyd cyfraniadau ariannol i gyflogi athrawon i gefnogi'r ddarpariaeth addysg trochi hwyr.

### **Cynnig 26: Ymchwil ar sut i ddelio â chanlyniadau anfwriadol amod tai fforddiadwy / adran 106.**

'Rydym yn gyfarwydd ac yn gefnogol o'r "Cynllun Tai Marchnad Lleol" a weithredir yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Fodd bynnag, mae rhai materion yn ymwneud ag argaeledd morgeisi, y mae angen mynd i'r afael â hwy. Rydym yn gweinyddu Cofrestr Tai Fforddiadwy Tai Teg ar draws gogledd Cymru a Phowys ac wedi profi problemau gydag unigolion yn ceisio cael mynediad at forgeisi ar gyfer unedau fforddiadwy sydd â chyfyngiad A106 ar yr eiddo. Ymddengys fod nifer y benthycwyr sy'n rhoi benthyg ar eiddo fforddiadwy yn isel, felly mae dewis cyfyngedig i brynwyr wrth chwilio am forgais. Yn ogystal, nid yw cwmnïau morgeisi a fyddai'n rhoi benthyg yn cymryd y risg o gynnig morgeisi ar sawl uned ar un datblygiad. Byddai trafodaethau gyda benthycwyr morgeisi blaenllaw yn ddefnyddiol, wedi'u hwyluso gan Lywodraeth Cymru.'

**Ffynhonnell: Grŵp Cynefin**

'Mae angen ymchwil brys i ddatrys problemau sy'n codi yn deillio o amod leol / fforddiadwy Adran 106 a'r canlyniadau anfwriadol sydd wedi gwneud codi morgais yn anodd i rai pobl.'

**Ffynhonnell: Cyngor Tref y Bala**

'Rydym yn ystyried bod benthycwyr ariannol yn defnyddio tai angen lleol fforddiadwy fel esgus i beidio a benthyg arian a lle nad yw'r risg wir yn uwch na benthyciadau ar gyfer tai marchnad agored. [Mae] angen i lywodraeth Cymru wneud gwaith pellach i ddod dros y rhwystrau benthyg ar gytundebau 106.'

**Ffynhonnell: Parc Cenedlaethol Eryri**

### Gwell tystiolaeth am yr angen am dai

Gan glymu i mewn gyda phwyntiau a wnaed yn yr adran ar gynllunio, roedd rhai ymatebwyr yn galw am fwy o ddata ac ymchwil mwy diweddar ar yr angen am dai fel bod cynlluniau datblygu a strategaethau tai awdurdodau lleol yn cael eu llywio gan dystiolaeth gyfredol.

## Cynnig am well tystiolaeth (parhad o gynnis 25 uchod)

'Mae cynnal adolygiad cyfnodol o anghenion tai yn ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol.... Fodd bynnag, dim ond amcangyfrifon eang, hirdymor y mae AMTLI [Aseiad Marchnad Tai Lleol ] yn eu rhoi o'r hyn y gallai'r angen lleol am dai fod yn y dyfodol.

Yn lle amcangyfrifon damcaniaethol o angen a galw, dylai Cynlluniau Datblygu a Strategaethau Tai awdurdodau lleol gael eu llywio gan dystiolaeth o anghenion lleol ar lefel cymunedau unigol. Byddai'r dystiolaeth hyn yn sail ar gyfer penderfynu ar ddatrysiadau tai priodol ar gyfer pob cymuned, adnabod cyfleoedd lleol i ddiwallu'r angen ac yna cyflwyno'r achos dros fuddsoddi arian cyhoeddus. Byddai cynnal aseiad rheolaidd o anghenion bob cymuned yn darparu sylfaen dystiolaeth "go iawn" ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu a Strategaethau Tai Lleol a fyddai, yn eu tro, yn sicrhau bod anghenion lleol yn llywio polisiau defnydd tir, targedau tai fforddiadwy a blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn cartrefi newydd

**Ffynhonnell: Unigolyn**

### Adnoddau ar gyfer prynu adeiladau presennol

Syniad arall a gynigiwyd oedd helpu cymunedau (a mentrau lleol neu gymdeithasai tai) i brynu asedau. Gan fanylu ar y pwynt a wnaed uchod ar gymunedoli asedau, esboniwyd bod angen darparu rhagor o adnoddau ar gyfer prynu adeiladau presennol, yn enwedig eiddo sydd â gwerth cadwraeth, a chartrefi gwag, gan sicrhau eu bod ar gael fel tai fforddiadwy i bobl leol. Dylid darparu cymorth ariannol i fentrau cymunedol brynu eiddo presennol.

### **Parhad o Gynnis 23 uchod: Cymorth ariannol i fentrau cymunedol**

'Dylai Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru gynnis cymorth ariannol i fentrau cymunedol Cymraeg ar ffurf grantiau, buddsoddi ecwiti a benthyciadau llog-isel. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gronfa debyg i Gronfa Dir Yr Alban, sydd yn ariannu prynu tir ac adeiladau a fyddai'n cyfrannu at gynaliadwyedd cyffredinol cymuned neu alluogi cadw neu ddarparu gwasanaethau lleol allweddol. .... Bydd y cronfeydd cyhoeddus a phreifat hyn yn hanfodol os yw mentrau cymunedol i wireddu'r cyfleoedd a fydd yn cael eu creu drwy gyflwyno polisiau tebyg i'r Hawl Gymunedol i Brynu.'

**Ffynhonnell: Unigolyn**

'Creu cerbyd lleol, rhyw fath o fenter ar y cyd i brynu tai / siopau gwag, dod â nhw i safon a'u rhentu i greu incwm. Defnyddio'r incwm yma i brynu eiddo gwag pellach a'u troi yn gartrefi, er mwyn cynnis fel opsiwn ar gyfer cadw pobl yn eu cymunedau neu ddenu pobl a'u teuluoedd yn ôl i'r cymunedau ble maent wedi eu dwyn i fyny.'

**Ffynhonnell: Grŵp Cynefin**

### Diwygio Deddf Rhentu

Tynnodd sawl ymatebydd sylw at y ffaith bod y sector rhentu hefyd angen sylw, ac y dylid sicrhau bod rhentu yn fforddiadwy.

## Cynnig 27: Cynyddu'r nifer o dai rhent a sicrhau fforddiadwyedd a sicrwydd deiliadaeth i denantiaid

'Daeth Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym ar y 1af o Ragfyr 2022 gan greu system gwbl newydd ar gyfer tenantiaethau preswyl lle bydd y rhan fwyaf o denantiaethau a thrwyddedau presennol yn cael eu trosi'n contractau meddiannaeth. Ceir dau fath o contract meddiannaeth: 'Contract Diogel' a 'Contract Safonol.'

'Disgwylir y bydd landlordiaid preifat fel arfer yn ymrwmo i contractau safonol, ond gallant ddewis ymrwmo i contract diogel. Gall y landlord derfynu contract safonol gydag achos, neu heb achos, ar ôl cyfnod penodol o rybudd. .... Dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i roi'r hawl i denantiaid landlordiaid preifat dderbyn contractau diogel. Byddai gwella sicrwydd deiliadaeth yn gwneud y sector rhentu preifat yn ein cymunedau Cymraeg yn opsiwn llawer mwy sefydlog a deniadol i drigolion lleol nad oes ganddynt y modd i ystyried prynu tŷ.'

**Ffynhonnell: Unigolyn**

### Gosod tai

Galwodd rhai ymatebwyr am roi blaenoriaeth i bobl leol mewn polisiau gosod tai. Dywedodd Adra ei bod hi'n,

'hollbwysig fod hyblygrwydd mewn trefniadau Polisi Gosod Tai yn cael eu defnyddio mewn cymunedau Cymraeg er mwyn sicrhau fod blaenoriaeth yn cael ei roi i bobl leol. Gwelir rôl bellach i Lywodraeth Genedlaethol a Lleol i fod yn hyrwyddo hyn ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.' (Adra)

Esboniodd Grŵp Cynefin yn ei ymateb ei bod wedi cynnal gwaith ymgynghori gyda chymunedau er mwyn deall eu barn am y sefyllfa dai, ac un o'r themâu a godwyd oedd tai rhent cymdeithasol. Esboniwyd bod

'cymunedau yn ymwybodol bod problemau digartrefedd a'r angen ar gyfer tai yn y Sir (yn enwedig o dan yr amgylchiadau presennol costau byw a.y.y.b) ond yn teimlo byddai cael Polisi Gosod Lleol ar dai hefyd yn gwarchod gwead cymunedau ac yn amddiffyn y rheini mewn angen am gartref yn eu cymuned.' (Grŵp Cynefin)

### Cymorth ariannol i wneud datblygiadau bach sy'n fforddiadwy

Esboniodd nifer o'r cymdeithasau tai a'r awdurdodau cynllunio bod datblygiadau bach (dyweder 6 tŷ neu lai) bron yn amhosib i'w hadeiladu mewn ffordd hyfyw, ac fel esbonia'r darparwr cartrefi cymdeithasol Adra, 'mae rhaid adeiladu stadau o oddeutu 15-20 o dai er mwyn gallu cyfiawnhau y datblygiadau ar sail ariannol. O ganlyniad, mae hi bron yn amhosib i fod yn datblygu tai ar raddfa llai mewn cymunedau Cymreig sydd wir angen stoc newydd er mwyn helpu gynnal gwead y gymuned.'

## Cynnig 28: Cynnig grantiau uwch i ddelio gydag anhyfywedd datblygiadau llai eu maint

'Mae'n hanfodol bod y nifer o dai fforddiadwy a ddatblygir yn cyd-fynd gyda'r angen yn lleol a hefyd yn adlewyrchu maint y pentref gwledig. Mewn ardaloedd gwledig mae hyn yn golygu datblygu safleoedd o tua 3 i 5 uned fforddiadwy. Mae'n debyg ei bod yn ddrytach datblygu safleoedd llai gan nad oes cyflenwad nwy, mwy o waith teithio i'r gweithwyr ayyb. Dylai bod cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol mewn ardaloedd gwledig / ar safleoedd llai i gymryd i ystyriaeth materion megis isadeiledd, amodau'r safle ayyb. O ganlyniad mae pentrefi gwledig yn Eryri yn colli allan o ran darpariaeth tai fforddiadwy oherwydd problemau hyfywedd gyda Chymdeithasau Tai yn gyndyn iawn o ddatblygu ac yn wrth risg i ddatblygu datblygiadau llai mewn ardaloedd gwledig. Yn aml iawn gwelir bod Cymdeithas Dai eisiau codi 6-10 uned mewn ardal wledig er mwyn i'r datblygiad fod hyfyw sydd fwy tebygol o dderbyn gwrthwynebiad lleol. Mae'n hanfodol bod unrhyw grantiau tai yn goresgyn anawsterau datblygu a hyfywedd safleoedd bach mewn ardaloedd gwledig.'

**Ffynhonnell: Parc Cenedlaethol Eryri**

Yn ogystal â'r sylwadau sydd eisoes wedi eu crybwyll, roedd yr ymatebwyr yn awgrymu bod angen ailedrych ar y system gynllunio, yn enwedig o ran caniatáu codi tai ar eiddo fferm. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gwahanol ardaloedd yn wynebu gwahanol heriau, a bod galw am dulliau wedi'u targedu, gan i ymateb Sir Gaerfyrddin esbonio bod 'mynd i'r afael â thai gwag o fewn ardaloedd, hyn yn fwy o her yn Sir Gâr (ar hyn o bryd) nag ail gartrefi.'

### 8.3 Ail gartrefi

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at effeithiau ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ar gymunedau Cymraeg, ac at eu pryderon y bydd yr heriau y mae cymunedau Cymraeg yn eu hwynebu yn cynyddu wrth i'r nifer o ail gartrefi gynyddu ac wrth i bobl barhau i gael eu gwthio o'u cymunedau gan brisiau tai uchel.

Roedd cydnabyddiaeth nad oes atebion hawdd, ac er bod rhai camau eisoes i fynd i'r afael â'r materion hyn, fel yr eglura RTPI Cymru, 'mae hwn yn fater cymhleth ac o'r herwydd, bydd angen atebion amlweddog, yn aml y tu hwnt i bolisi cynllunio megis trethiant a thrwyddedu.'

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebion at fanteisio ar y cyfle i godi trethi uwch, neu bremiwm, ar ail dai, cyn mynd ati i gynnig beth i'w wneud gyda'r arian a godir. Ymhlith y sylwadau eraill oedd awydd bod Cymru'n mabwysiadu polisi tai tebyg i wledydd eraill, gyda chyfran uchel o dai i'w prynu neu i'w rhentu wedi'u dynodi ar gyfer y farchnad leol neu drigolion parhaol, ond ni chynigiwyd camau pendant ynglŷn â sut i gyflawni hyn gan ymatebwyr. Roedd yna hefyd sylwadau am bwysigrwydd gwarchod enwau Cymraeg a galw am weithredu i warchod enwau fel rhan o waith cynllunio gwlad a thref.

## Cynnig 29: Annog defnydd o'r premiwm ail gartrefi ac adolygu sut mae'r arian yn cael ei wario

'a percentage of the income from policies such as the second home tax should be set aside for the intensification of efforts to strengthen Welsh-speaking communities. For example: promoting the benefits of Welsh language education and ensuring that language transfer takes place throughout the education journey and that there are valuable opportunities for

our young people to use Welsh beyond school walls.'

**Ffynhonnell: Clybiau Plant Cymru**

'Taclo'r argyfwng presennol - codi premiwm ail-gartrefi a treth twristiaeth a defnyddio'r incwm hwnnw i ariannu prosiectau tai dan berchnogaeth cymunedol mewn cymunedau.'

**Ffynhonnell: Menter Gwynedd**

'Ystyrir yn gyffredinol bod y pwerau trethu a roddwyd i awdurdodau lleol o ran codi lefelau treth y cyngor a godir ar ail gartrefi yn fesur cadarnhaol. Nododd nifer o'n haelodau na fydd y tâl ychwanegol ar ei lefelau is yn gostwng y nifer o ail gartrefi (teimlwyd bod perchnogion yn gallu cymathu cynnydd bach) yn gyffredinol ond ei fod yn darparu ffrwd refeniw ychwanegol i'w buddsoddi mewn tai o fewn ardal leol. Yn gysylltiedig â hyn, credwn ei bod yn allweddol ac yn hanfodol, waeth beth fo'r tâl ychwanegol a godir ar ail gartrefi, i awdurdodau lleol sicrhau bod y refeniw a geir yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gweithgareddau gysylltiedig â thai, yn enwedig datblygu cartrefi fforddiadwy. Er hynny, rydym yn cydnabod y gallai'r ymrwymiad hwn fod yn anodd wrth symud ymlaen oherwydd pwysau chwyddiant ar gyllidebau Awdurdodau Lleol.'

**Ffynhonnell: CIH**

'Mae'r tŷ a'm cysylltiad gyda'r ardal yn hynod o bwysig imi er mwyn cadw fy iaith Gymraeg yn fyw ac er mwyn cadw cysylltiad efo iaith a diwylliant Cymru. Yr wyf yn fodlon i dalu treth ychwanegol i'r cyngor oherwydd ei safle fel "ail dŷ", a buaswn yn falch o gael gweld yr arian yn mynd tuag at helpu pobl ifanc yr ardal i gael tai fforddiadwy.'

**Ffynhonnell: Unigolyn**

'Dylsai Awdurdodau Leol gofalu fod unrhyw dreth Premiwm a gesglir gan berchnogion tai haf yn cael ei wario yn yr ardaloedd hynny lle mae'r niferoedd o dai haf yn amlwg yn broblem, e.e bod y dreth Premiwm a gesglir yn Nwyfor yn cael ei wario yn Nwyfor ....'

**Ffynhonnell: Unigolyn**

## 9. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr natur groesawgar cymunedau Cymraeg, ond bod angen prif-ffrydio polisiâu o blaid cydraddoldeb bob amser. Yn y cyd-destun hwn, cafwyd cyfeiriadau at gydraddoldeb ym maes hil, gyda rhai ymatebwyr yn sôn am y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac eraill yn cyfeirio at bwysigrwydd hawliau LHDT+. Soniwyd hefyd am yr hawl i gaffael iaith, boed trwy'r system addysg neu ar gyfer unigolion a oedd yn symud i ardaloedd Cymraeg fel oedolion. Nodwyd hefyd y gallai rhywedd fod yn ystyriaeth o ran patrymau trosglwyddo iaith mewn teuluoedd.

### Cynnig 30: Hyrwyddo cydraddoldeb

#### Integreiddio newydd-ddyfodiaid

'Strategaethau i gymhathu newydd ddyfodiaid, mewn Sir ble mae mewnlifiad yn uchel; er enghraifft Prosiect Croeso Ceredigion. Mae Cyngor Sir Ceredigion a Menter Iaith Cered yn cyd-weithio ar brosiect cynhwysfawr er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg pobl sy'n symud i Geredigion am y tro cyntaf am yr iaith Gymraeg ac am y gwahanol agweddau o fyw bywyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bwriad y prosiect yw cynnal hyfywedd cymunedau trwy amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i gyfrannu a chefnogi'n lleol, ac i helpu personau i ddeall sut mae'r Gymraeg yn gweu i fewn i fywyd diwylliannol a chymdeithasol y Sir. Bydd y prosiect yn gynhwysol, gan ddwyn ynghyd siaradwyr Cymraeg, siaradwyr swil, dysgwyr y di-Gymraeg a'r rhain sy'n gwbl newydd i'r Gymraeg. Bydd y prosiect yn anelu at sicrhau perchnogaeth gan y 21 gymuned, gan arfogi'r gymuned ei hunain i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â mewnfudwyr.'

#### **Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion**

#### Gweithgarwch i ddangos bod Cymraeg yn iaith i bawb

'Un ffordd o gryfhau cymunedau Cymraeg yw trwy bwysleisio bod y Gymraeg yn iaith i bawb. Mae mudiadau fel Mas ar y Maes (sydd yn rhan bwysig o'r Eisteddfod Genedlaethol) yn ddiweddar wedi cynnig y syniad o sefydlu Eisteddfod Leol ar gyfer pobl LHDT+ er mwyn hybu'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned. Mae sicrhau fod y gefnogaeth i fudiadau fel hyn weithredu ar y syniadau yn hollbwysig ....Un ffordd o gryfhau cymunedau Cymraeg yw trwy bwysleisio bod y Gymraeg yn iaith i bawb.'

#### **Ffynhonnell: Menter a Busnes**

#### Gweithredu amcanion strategol

'Mae Cynghorau lleol ledled Cymru hefyd wedi dechrau ymgysylltu ag egwyddorion gwrth-hiliaeth, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn tynnu sylw at y Gymraeg fel maes polisi penodol, a bydd awdurdodau lleol yn ystyried hyn wrth iddynt fwrw ymlaen â'r cynllun yn eu cyd-destunau lleol ac yn cyd-fynd â datblygu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol 2024. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried defnyddio'r 12 mis nesaf, lle bydd mwyafrif y cynghorau yn dechrau tynnu'r cynlluniau cydraddoldeb hyn at ei gilydd, er mwyn cyfleu sut yr adlewyrchir yr arferion gorau ynghylch cydraddoldeb a'r Gymraeg o fewn y cynlluniau hyn.'

#### **Ffynhonnell: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

'Byddwn yn mynd ati i edrych am gyfleoedd i brif ffrydio amcanion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDT+ Cymru yn benodol, ynghyd ag unrhyw gamau eraill

y gallwn eu cymryd, gan weithio mewn partneriaeth, wrth roi Gwedd Arfor 2 ar waith i sicrhau bod cymunedau Arfor yn gynhwysol ac yn rhoi cyfle i bawb – waeth beth fo’u cefndir – i gyflawni eu dyheadau tra’n byw, gweithio a mwynhau mewn cymunedau lle mae’r Gymraeg yn iaith fyw.’

**Ffynhonnell: ARFOR**

#### Sicrhau mynediad i addysg a gwersi Cymraeg

‘Representing minority groups is extremely important at all levels of society, and Welsh-speaking communities should be supported to nurture leaders who reflect the diversity of their community. This can be done by offering mentoring programmes and free language lessons. The work should be embedded within the Welsh Government’s anti-racism framework ensuring that Black, Asian and ethnic minority families can easily access Welsh-medium care and education (without barriers of any kind).’

**Ffynhonnell: Clybiau Plant Cymru**

‘Y mae angen hefyd adolygu’r rhaglenni caffael iaith i geisiwyr lloches hefyd gan sicrhau bod EAL (English as an additional language) a CIY (Cymraeg fel iaith Ychwanegol) yn cael eu cynnig yng Nghymru o’r cychwyn.’

**Ffynhonnell: RhAG**

#### Rhywedd a throsglwyddo ieithyddol yn y teulu

‘Rhaid hefyd ystyried bod yna waith ymchwil sydd yn awgrymu mai iaith y fam yw’r rhagfynegydd orau o ddatblygiad ieithyddol y plentyn. ... Mae angen ystyried ymyraethau pwrpasol i weithio gyda thadau sy’n medru’r Gymraeg mewn teuluoedd cymysg eu hiaith. Byddai talu mwy o sylw i effaith ac arwyddocâd rhywedd trwy’r camau gweithredu i gyd yn fuddiol.’

**Ffynhonnell: Mudiad Meithrin**